# Templed Asesiad Integredig APCAP

**Teitl yr hyn sy’n cael ei Asesu: Mesurau i reoli datblygiadau gwersylla a charafanio yn y Parc Cenedlaethol: Erthygl 4: (1) Cyfarwyddyd ar gyfer safleoedd gwersylla 28 diwrnod ynghyd â Chod Ymddygiad ar gyfer Sefydliadau Eithriedig (Cam 2)**

**Ai Asesiad Integredig fesul cam yw hwn?:** Ie. Cwblhawyd Asesiad Integredig Cam 1 ar gyfer yr APC ar 1 Mai 2024 cyn yr ymgynghoriad. Asesiad Integredig cam 2 yw hwn yn dilyn cyfnod yr ymgynghoriad cyhoeddus. Cynigir y byddir yn bwrw ymlaen ag opsiynau 2 a 3:

Opsiwn 2: cyflwyno ac ymgynghori ynghylch Cyfarwyddyd Erthygl 4 (1) i ddileu hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer safleoedd gwersylla 28 diwrnod, ynghyd ag

Opsiwn 3: cyflwyno cod ymddygiad gwirfoddol/protocol gweithio ar gyfer Sefydliadau Eithriedig yng nghyswllt dewis a gweithredu safleoedd

Mae’r ddogfen hon yn offeryn amlbwrpas sy’n sicrhau y cymerir y camau priodol o fewn prosesau llunio ein cynlluniau, ein polisïau a’n prosesau penderfynu i:

- Gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (mae’n ofynnol i ni asesu effeithiau ar gydraddoldeb o dan Ddyletswyddau Penodol Cymru)
- Dangos ein bod wedi rhoi sylw dyladwy i’r angen i leihau anghydraddoldebau canlyniadau sy’n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol o dan y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.
- Sicrhau ein bod yn ystyried yr effaith ar Iechyd a Lles.
- Sicrhau ystyriaeth o Safonau’r Gymraeg.
- Sicrhau ein bod yn ystyried Dyletswydd Bioamrywiaeth Adran 6 ynghyd ag ystyriaethau ehangach yng nghyswllt datgarboneiddio o fewn ein cynlluniau a’n prosesau penderfynu.
- Sicrhau ein bod yn ystyried y Nodau Llesiant ar gyfer Cymru, y 5 Ffordd o Weithio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol ac unrhyw dueddiadau perthnasol at y dyfodol / gwybodaeth o waith sganio’r gorwel.

**Manteision ymgymryd ag Asesiad Integredig:**

- Cael gwell dealltwriaeth o’r rheiny y gellir eu heffeithio gan y cynllun, y penderfyniad, y polisi neu’r ymarfer.

- Gallu diwallu anghenion amrywiol yn well a dod yn fwy hygyrch a chynhwysol.
- Galluogi cynllunio ar gyfer llwyddiant – nodi problemau posibl a chanlyniadau anfwriadol cyn i unrhyw ddifrod gael ei wneud.
- Atal penderfyniadau gwael, neu waeth, gorfod gwrthdroi penderfyniadau, gan felly osgoi goblygiadau o ran costau a cholli enw da.
- Dangos bod penderfyniadau'n cael eu hystyried yn ofalus a'u bod wedi ystyried barnau'r rheiny a effeithir.
- Ein caniatáu ni i reoli disgwyliadau drwy egluro'r cyfyngiadau yr ydym yn gweithio oddi mewn iddynt (e.e. cyllideb).
- Helpu i osgoi risgiau a gwella canlyniadau i unigolion.
- Cael gwared ar arferion amhriodol neu niweidiol a dileu gwahaniaethu sefydliadol.
- Sicrhau ein bod yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.
- Sicrhau ein bod yn ymgorffori ystyriaethau o ran bioamrywiaeth a datgarboneiddio ym mhopeth a wnawn.

## Adran 1 – Manylion y Cynllun Strategol, y Polisi neu'r Penderfyniad

| | |
|---|---|
| **Enw'r Cynllun Strategol, y Polisi neu'r Penderfyniad sy'n cael ei asesu** | Cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 (1) i alluogi rheoli'r safleoedd carafanio a gwersylla nad oes angen caniatâd cynllunio ar eu cyfer ar hyn o bryd os ydynt yn gweithredu am gyfnod o 28 diwrnod yn y modd a nodir o dan:<br><br>1. Mae Dosbarth B o Ran 4 o Atodlen 2 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (fel y'i diwygiwyd), yn caniatáu i unrhyw dir gael ei ddefnyddio dros dro ar gyfer ystod o ddefnyddiau am ddim mwy na 28 diwrnod mewn unrhyw flwyddyn galendr. Nid yw'r datblygiad a ganiateir yma yn cynnwys defnyddio'r tir fel maes carafanau, ond mae'n caniatáu pebyll.<br><br>2. Mae Dosbarth A o Ran 5 o Atodlen 2 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (fel y'i diwygiwyd), yn caniatáu defnyddio tir fel maes carafanau o dan yr amgylchiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff A.2. Mae'r paragraff hwn yn cyfeirio at y rhai a bennir ym mharagraffau 2 i 10 o Atodlen 1 o Ddeddf 1960. Mae Deddf 1960, o dan baragraff 2, yn caniatáu i dir gael ei ddefnyddio fel maes carafanau am ddim mwy na 28 diwrnod gydag un garafán yn aros am ddim mwy na dwy noson. Ym mharagraff 3 mae'n caniatáu i dir ar ddaliadau tir 5 erw neu fwy gael ei ddefnyddio ar gyfer hyd at 3 carafán, cartref modur neu gerbyd gwersylla. Ni chaniateir unrhyw strwythurau heblaw'r cyfleusterau dros dro mwyaf sylfaenol fel safbibell a phortalŵ heb ganiatâd cynllunio. |

| | |
|---|---|
| | 3. Mae Dosbarth B o ran 5 o Atodlen 2 i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (fel y'i diwygiwyd) yn caniatáu defnyddio cartref symudol am ddim mwy na 28 diwrnod gyda'r cartref symudol yn aros am ddim mwy na 2 noson.<br><br>Sefydlu Cod Ymddygiad gwirfoddol ar gyfer Sefydliadau Eithriedig yng nghyswllt dewis a gweithredu safleoedd. |
| **Adran / Maes Gwasanaeth** | Cynllunio |
| **Swyddog sy'n Gyfrifol am yr Asesiad Effaith** | Enw: Emma Gladstone (Rheolwr Polisi Strategol). Ymgymerwyd â Cham 1 gan Martina Dunne M & S Town Planning Ltd ar ran Sara Morris. |
| **Uwch Reolwr Cyfrifol** | Enw: Sara Morris<br>Teitl: Cyfarwyddwr Creu Lleoedd, Datgarboneiddio ac Ymgysylltu |
| **Amserlen ar gyfer yr Asesiad** | Asesiad Cam 1 wedi'i atodi i bapurau Pwyllgor Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar Fai 1af. Ymgymerwyd â'r Asesiad Cam 1 cyn ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd dros gyfnod o 3 mis.<br><br>Ymgymerir â'r Asesiad Cam 2 hwn ar ôl yr ymgynghoriad a'r cynnig yw cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 (1) nad yw'n dod i rym yn uniongyrchol ar gyfer safleoedd carafanio a gwersylla 28 diwrnod, ynghyd â sefydlu Cod Ymddygiad/Protocol Gweithio ar gyfer Sefydliadau Eithriedig, yn amodol ar gymeradwyaeth yr APC ar 11 Rhagfyr 2024.<br><br>Dyma'r amserlen arfaethedig ar gyfer cyflwyno'r Cyfarwyddyd Erthygl 4(1): |

| **Cam** | **Amserlen** |
|---|---|
| Cyfarwyddyd Erthygl 4 (1): Dyddiad Cwblhau | Rhagfyr 2024 |

| | | |
|---|---|---|
| | Rhybudd o Gyfarwyddyd Erthygl 4 a roddir gyda chyfnod o 6 wythnos ar gyfer sylwadau ffurfiol | Ionawr i Chwefror 2025 |
| | Adroddiad ar sylwadau ffurfiol i Awdurdod y Parc Cenedlaethol gydag argymhelliad o ran p’un ai i’w gadarnhau ai peidio. Yr Aelodau a fydd yn penderfynu p’un ai i’w gadarnhau ai peidio. Os caiff ei gadarnhau, rhaid rhoi rhybudd o’i gadarnhau ynghyd â’r dyddiad y bydd y Cyfarwyddyd yn dod i rym. | Mawrth neu Fai 2025 |
| | Cyfarwyddyd Erthygl 4 (1) yn dod i rym | 1 Ionawr 2026 |
| **Monitro ac Adolygu’r Asesiad** | Gweler uchod o dan Amserlen ar gyfer yr Asesiad. | |
| **CAM 2 (AR ÔL YR YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS): Llofnodi gan y Prif Weithredwr – Yr Asesiad a’r Crynodeb / Argymhellion Wedi’u Cwblhau** |  Dyddiad llofnodi: 16/12/2024 | |

## Adran 2 – Nodau’r Cynllun Strategol, y Polisi neu’r Penderfyniad a Throsolwg Ohono

| **Beth yw ei ddiben arfaethedig?** |
|---|

Cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 (1) nad yw'n dod i rym yn uniongyrchol ar gyfer ardal gyfan Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Byddai'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 (1) yn dileu hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer defnyddio tir ar gyfer gwersylla a/neu garafanau am ddim mwy na 28 diwrnod. Mae'r hawliau datblygu a ganiateir ar hyn o bryd yn caniatáu:

(a) Pebyll a phebyll trelar i'w defnyddio am ddim mwy na 28 diwrnod mewn blwyddyn galendr.
(b) Lleoli dim mwy na thair carafán am ddim mwy na dwy noson ar unrhyw adeg ar gyfer bob carafán am ddim mwy na chyfanswm o 28 diwrnod mewn blwyddyn galendr ar dir sy'n 5 erw neu fwy.
(c) Lleoli dim mwy nag un garafán/cartref symudol am ddim mwy na dwy noson am ddim mwy na chyfanswm o 28 diwrnod mewn blwyddyn galendr ar dir sy'n llai na 5 erw.

Mae hyn yn golygu, yn dilyn gweithredu Cyfarwyddyd Erthygl 4 (1), y byddai angen cael caniatâd cynllunio i ddefnyddio tir yn y modd a nodir uchod. Ystyrir y datblygiadau hyn ar hyn o bryd fel 'hawliau datblygu a ganiateir' yn unol â Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (fel y'i diwygiwyd), h.y. y defnydd o dir sy'n 5 erw neu fwy fel maes carafanau o dan yr amgylchiadau penodedig heb yr angen i gael caniatâd cynllunio ar gyfer y defnydd hwnnw.

**Nodyn Esboniadol** Hawliau Datblygu a Ganiateir o dan **Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995: Rhan 5 A Datblygu a Ganiateir**:

**BETH A GANIATEIR AR SAFLE '28 DIWRNOD'**

- Pebyll a phebyll trelar.
- Llety glampio heb safleoedd caled.
- Adeileddau y gellir eu symud ar olwynion neu sgid ar ôl defnyddio'r safle, sy'n cynnwys toiledau cludadwy.
- Cerbydau a ddefnyddir yn unig ar gyfer cludo i'r safle (ceir, faniau a threlars).
- Tir sydd dros bum erw - caniateir hyd at dair carafán ar y tro. Caniateir i bob carafán aros am hyd at uchafswm o ddwy noson.
- Tir sydd o dan bum erw - caniateir un garafán yn unig ar y tro. Caniateir i bob carafán aros am hyd at uchafswm o ddwy noson.

**BETH NA CHANIATEIR AR SAFLE '28 DIWRNOD'**

- Llety glampio ar safleoedd caled – sy'n cynnwys, ond heb eu cyfyngu i: iyrtiau, tipis, podiau a phebyll cloch.
- Unrhyw adeileddau parhaol sy'n cynnwys, ond heb eu cyfyngu i: adeiladau amaethyddol, blociau toiledau, siopau, ystafelloedd golchi.
- Cartrefi gwyliau symudol, Cerbydau Hamdden (RVs).
- Cyfleusterau dros dro ar olwynion neu sgid y mae angen trwyddedau ar wahân ar eu cyfer, sy'n cynnwys, ond heb eu cyfyngu i: 'faniau byrgyrs'.

- Unrhyw bwyntiau cysylltu trydan a/neu wasanaethau cyfleustodau sylweddol fel sinciau unigol sy’n annodweddiadol o gaeau amaethyddol.

Ni ellir defnyddio tir sydd wedi’i gyfuno o fewn meysydd carafanau presennol fel safle 28 diwrnod.

Cyflwyno Cod Ymddygiad Gwirfoddol / Protocol Gweithio ar gyfer Sefydliadau Eithriedig ynghylch dewis a gweithredu safleoedd i gydymffurfio â pholisïau cynllunio’r Parc Cenedlaethol a gofynion eraill ymgymerwyr statudol.

**Ai rhywbeth newydd yw hwn neu rywbeth sy’n bodoli eisoes ac yn destun adolygiad?**

Newydd

**Beth fydd yn newid o ganlyniad iddo a/neu pa newidiadau a gynigir?**

Gweler uchod o dan ‘**Beth yw ei ddiben arfaethedig?**’. Byddai angen caniatâd cynllunio ar gyfer defnyddio tir ar gyfer gwersylla a/neu garafanau am ddim mwy na 28 diwrnod.
Byddai’r Cod Ymddygiad / Protocol Gweithio ar gyfer Sefydliadau Eithriedig yn gwella deialog a chydweithrediad gyda Sefydliadau Eithriedig i sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau cynllunio’r Awdurdod a gofynion eraill ymgymerwyr statudol.

**Beth yw’r canlyniadau nodedig a ragwelir yng nghyswllt hwn (cadarnhaol a negyddol)?**

**Cadarnhaol:**

- Rheolaeth fwy cynhwysfawr o ran asesu effeithiau carafanio a gwersylla yn y Parc Cenedlaethol, sy’n caniatáu’r Awdurdod **i sicrhau bod cynigion yn cyd-fynd â strategaeth Cynllun Datblygu Lleol 2 Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, ynghyd â dibenion Parciau Cenedlaethol**. Dibenion Parciau Cenedlaethol yw:
    - Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal.
    - Hyrwyddo cyfleoedd i’r cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig y Parciau.

  Ceir y ddyletswydd i feithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol o fewn y Parc Cenedlaethol er mwyn cyflawni’r dibenion hynny.

- **Sicrhau ffocws newydd ar gyfer adnoddau Awdurdod y Parc Cenedlaethol** (ac adnoddau sefydliadau sy’n bartneriaid) o gymryd camau i ymateb i feysydd carafanau a gwersylla anawdurdodedig i feithrin cysylltiadau gyda sefydliadau eithriedig a rhanddeiliaid allweddol eraill.

- Byddai cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 (1) ar gyfer yr ardal gyfan yn sicrhau bod **amwynderau preswylwyr y Parc Cenedlaethol yn cael eu diogelu, gan gynnwys yr unigolion hynny sydd â nodweddion gwarchodedig o ran cydraddoldeb**. Byddai hefyd yn sicrhau y rhoir ystyriaeth i weledigaeth ac amcanion ystod o strategaethau a pholisïau perthnasol wrth asesu priodoldeb y datblygiad arfaethedig (yn unol ag arweiniad y polisi cynllunio lleol). **Noder** y bu’r polisïau

a'r strategaethau hyn hefyd yn destun Asesiad Effaith perthnasol. Ar ben hynny, nodir y byddai'r dull hwn o gyflwyno'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 (1) yn sicrhau nad oes unrhyw amheuaeth o ran yr ardal ddaearyddol y byddir yn gweithredu'r ymyriad oddi mewn iddi, a byddai hyn yn sicrhau bod preswylwyr y Parc Cenedlaethol cyfan yn ddarostyngedig i'r un ymyriad/gwarchodaeth.

- Byddai'r Cod Ymddygiad yn gwella deialog a chydweithrediad gyda Sefydliadau Eithriedig ynghylch dewis a gweithredu safleoedd yn unol â rheoliadau cenedlaethol, polisïau cynllunio lleol a gofynion eraill ymgymerwyr statudol.

**Negyddol:**

- Byddai angen i **dirfeddianwyr unigol** sydd wedi gweithredu safle o dan y rheol 28 diwrnod yn y gorffennol, neu sy'n bwriadu gwneud hynny, wneud cais am ganiatâd cynllunio. Ni chodir ffi ar gyfer gwneud cais o ran y cynigion hynny a fyddai wedi manteisio ar y rheol 28 diwrnod ar gyfer datblygu a ganiateir. Efallai y bydd rhaid talu costau os cyflogir ymgynghorydd cynllunio. Darperir arweiniad gan yr Awdurdod sy'n nodi'r modd y byddid yn ystyried y cynigion – gweler Atodiad D i adroddiad Awdurdod y Parc Cenedlaethol, 1 Mai 2024. Byddai'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 (1) yn cael ei weithredu heb ddod i rym yn uniongyrchol, a fyddai'n darparu cyfnod o 12 mis i geisio caniatâd cynllunio, sy'n cael ei ystyried yn amserlen ddigonol.
- Byddai'r Cod Ymddygiad / protocol gweithio'n wirfoddol, ac efallai na fydd Sefydliadau Eithriedig yn fodlon ymrwymo i'r Cod Ymddygiad.
- Byddai'r Awdurdod yn gorfod ysgwyddo cost yn sgil sefydlu'r Cod Ymddygiad. Amcangyfrifir y byddai'r gost hon yn £15,000 y flwyddyn. Byddai hon yn gost ychwanegol i'r Awdurdod, fodd bynnag, efallai y byddai'n bosibl i Lywodraeth Cymru neu'r sefydliadau eu hunain gyfrannu at y gost hon.

**Beth yw manylion y goblygiadau o ran y gyllideb yng nghyswllt hwn?**

Gwneir darpariaeth gyllidebol ar gyfer y Cyfarwyddyd Erthygl 4 (1) o fewn cyllidebau presennol. Ni fydd yr Awdurdod yn gyfreithiol yn gallu codi ffi gynllunio ar gyfer unrhyw gais cynllunio a dderbynnir ar gyfer safle 28 diwrnod - byddai hwn yn gais rhad ac am ddim. Felly, byddai goblygiadau i'r Awdurdod o ran adnoddau wrth ystyried ceisiadau o'r fath. Fodd bynnag, yn erbyn hyn, ceir y ffaith bod Swyddogion Gorfodaeth yr Awdurdod yn treulio llawer iawn o amser ar hyn o bryd yn delio ag achosion o dorri rheolau cynllunio yr adroddwyd amdanynt na ddarperir unrhyw ffi ar eu cyfer - barn Swyddogion yn gyffredinol y byddai'r newidiadau yn symleiddio ymchwiliadau gorfodaeth, ac yn arwain at ostyngiad net o ran faint o amser swyddogion a dreulir ar y maes gwaith hwn.

Byddai sefydlu Cod Ymddygiad Gwirfoddol / Protocol Gweithio gyda sefydliadau eithriedig hefyd yn arwain at gost i'r Awdurdod. Mae'r Awdurdod ar hyn o bryd yn gweithredu system debyg o ran y Cod Morol a'r Siarter Awyr Agored, am gost o £15,000 y flwyddyn i weinyddu'r ddau god. Byddai hyn yn gost ychwanegol i'r Awdurdod, fodd bynnag, gall fod yn bosibl i Lywodraeth Cymru neu'r sefydliadau eu hunain gyfrannu tuag at y gost hon.

Ar ôl ystyried dulliau gweithredu mewn mannau eraill, nodir y goblygiadau gweinyddol uniongyrchol ar gyfer Awdurdod y Parc Cenedlaethol isod:

**Manteision**

- Gostyngiad yn nifer yr achosion gorfodaeth ar gyfer yr Awdurdod
- Gostyngiad yn nifer y ceisiadau am Dystysgrif Cyfreithlondeb a nifer uchel o leiniau mewn ardaloedd sensitif
- Ffi sy'n daladwy ar gyfer ceisiadau sy'n dymuno gweithredu y tu hwnt i hawliau presennol o ran datblygu a ganiateir.
- Gostyngiad yn nifer y cwynion
- Datblygu cysylltiadau cadarnhaol â gweithredwyr safleoedd.
- Mwy o wybodaeth a rheolaeth dros safleoedd a'u lleoliad.

**Anfanteision**

- Cost paratoi a gweithredu Cyfarwyddyd Erthygl 4
- Ceisiadau nad oes angen talu ffi ar eu cyfer ar gyfer safleoedd newydd i'w defnyddio am 28 diwrnod
- Nifer uwch o geisiadau yn y tymor byr
- Nifer uwch o geisiadau am Dystysgrifau Cyfreithlondeb yn y tymor byr
- Gofyn am ragor o amser staff ar gyfer cysylltu â gweithredwyr safleoedd

**Nodwch pa grwpiau o bobl a gaiff eu heffeithio gan ei weithrediad, neu y gallent gael eu heffeithio ganddo (e.e. defnyddwyr gwasanaeth, gweithwyr, gwirfoddolwyr, pobl sy'n byw mewn cymunedau penodol)? Cynhwyswch unrhyw grwpiau sydd dan anfantais o ran cydraddoldeb neu statws economaidd-gymdeithasol sy'n debygol o gael eu heffeithio.**

| |
|---|
| Tirfeddianwyr y Parc Cenedlaethol (sy’n berchen mwy na 5 erw). Y Gymuned Ffermio. Preswylwyr Sir Benfro. Ymwelwyr â Sir Benfro. Parcmyn. Swyddogion Cynllunio/Gorfodaeth. Aelodau. |
| **Nodwch p’un a yw’r polisi’n ymwneud â pholisïau neu feysydd gwaith (mewnol neu allanol) ac unrhyw asesiadau a gynhaliwyd arnynt, neu’n cael ei ddylanwadu ganddynt neu ei effeithio ganddynt?** |
| Ydyw, gan Gynllun Datblygu Lleol 2 a’i Asesiadau cysylltiedig, h.y. Arfarniad Amgylcheddol Strategol, Arfarniad Cynaliadwyedd, Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb. |

## Adran 3 – Ystyried y Dystiolaeth ac Asesu'r Effaith

Mae'r adran hon yn ystyried pa ddata, gwybodaeth ac adborth a adolygwyd yn sgil gwaith ymgynghori ac ymgysylltu fel rhan o'r cynllun, polisi neu broses datblygu penderfyniad. Defnyddir gwybodaeth berthnasol wedyn i asesu effaith bosibl y cynllun, y polisi neu'r penderfyniad ac unrhyw gamau lliniaru posibl y mae eu hangen. Nodir bylchau o ran data a gwybodaeth hefyd.

### Cydraddoldeb/ Anfantais Economaidd-gymdeithasol ac Anghydraddoldeb Canlyniadau/ Anghydraddoldebau a Chanlyniadau Iechyd

Yn dibynnu ar beth sy'n cael ei asesu, gallwch naill ai ddefnyddio dull thematig neu ddull sy'n canolbwyntio ar grŵp penodol, siaradwch â'r Cydlynydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth i ganfod pa ddull a fydd yn fwyaf addas ar gyfer beth rydych yn ei asesu.

Os nad yw'n addas i gynnwys gwybodaeth fanwl o ran tystiolaeth, data, ac adborth o waith ymgysylltu/ ymgynghori yn y tabl ei hun, atodwch y wybodaeth hon fel Atodiad, a chyfeiriwch ati ar ffurf crynodebau yn y tabl pan fo angen.

### Dull Asesu Effaith sy'n Canolbwyntio ar Grwpiau

| Nodweddion Gwarchodedig/ Anfantais Economaidd-gymdeithasol ac Anghydraddoldeb Canlyniadau/ Canlyniadau ac Anghydraddoldebau Iechyd a Lles | Oes gennych chi dystiolaeth neu reswm i gredu bydd hyn yn effeithio, neu yn gallu effeithio, unrhyw rai o'r Nodweddion Gwarchodedig/ Anfantais Economaidd-gymdeithasol ac Anghydraddoldeb Canlyniadau/ Canlyniadau ac Anghydraddoldebau Iechyd a Lles a ganlyn? Ystyriwch effeithiau cadarnhaol a negyddol. Cyfeiriwch at dystiolaeth a gwybodaeth berthnasol o adborth gwaith ymgysylltu. | Ymateb/ Camau Lliniaru/ Unrhyw gamau ychwanegol y mae eu hangen |
|---|---|---|
| Oedran | Mae'r effaith bosibl yn niwtral.<br><br>Byddai cyflwyno a chadarnhau'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn galluogi rheolaeth gynllunio sy'n golygu bod rhaid cymryd camau gorfodol i allu sefydlu safle | Nodir bod yr effaith bosibl yn niwtral yn nhermau'r dull o gyflwyno'r |

| | | |
|---|---|---|
| | carafanio a gwersylla 28 diwrnod, hynny yw, rhaid i gynnig gael caniatâd cynllunio gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.<br><br>Nid yw'r gofyniad i gyflwyno cais cynllunio'n effeithio ar grŵp oedran penodol.<br><br>O ran cyflwyno'r cais cynllunio, byddai cyfnod o ymgysylltu â'r rheiny a effeithir sy'n galluogi unrhyw grŵp oedran sy'n oedolion i gyfranogi ac ymgysylltu â'r broses. Mae hyn yn golygu y byddai cyfle i unrhyw unigolyn gyflwyno sylwadau ar y cynnig.<br><br>Mae hyn yn golygu y byddai'r broses o gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn:<br><br>➢ Lleihau tebygolrwydd y gwahaniaethu a achosir pan nad yw aelodau o'r cyhoedd yn derbyn gwybodaeth ynghylch newidiadau sy'n eu heffeithio neu sy'n teimlo nad oes ganddynt y gallu i ddylanwadu.<br>➢ Gofyn am ymgynghori a cheisio barn y rheiny a effeithir.<br>➢ Sicrhau bod gwell rheolaeth ar feysydd carafanio a gwersylla sydd heb eu rheoleiddio, sydd felly'n sicrhau:<br>    o Y rhoddir ystyriaeth lawnach i amwynder eiddo cyfagos a chymunedau lleol.<br>    o Bod lleoliadau anghysbell yn fwy tebygol o gael eu hosgoi ar gyfer lleoli safleoedd o'r fath, sydd efallai'n fwy anodd i wasanaethau brys gael mynediad iddynt.[1]<br><br>Bydd yr Awdurdod yn gweithredu'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar draws ardal yr Awdurdod Cynllunio Lleol, sy'n golygu y byddai'n cael ei weithredu yn yr un modd ym mhob ardal.[2] | Cyfarwyddyd Erthygl 4. |

[1] Gweithdy gyda Rhanddeiliaid 8fed Chwefror 2024 a'r tabl Manteision ac Anfanteision a atodir i'r asesiad hwn.
[2] Gweithdy gyda Rhanddeiliaid 8fed Chwefror 2024 a'r tabl Manteision ac Anfanteision a atodir i'r asesiad hwn.

| | | |
|---|---|---|
| | O ran bod cynigion yn destun caniatâd cynllunio, byddent yn destun polisïau Cynllun Datblygu Lleol 2. Roedd Cynllun Datblygu Lleol 2 yn destun Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb[3] a oedd yn sgrinio'r holl bolisïau yn erbyn eu heffaith bosibl ar nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Ystyriodd yr Awdurdod dystiolaeth berthnasol i ddeall effaith debygol neu wirioneddol polisïau ac arferion ar grwpiau gwarchodedig.<br><br>Roedd hyn yn cynnwys sicrhau nad yw polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, gan nodi unrhyw effeithiau niweidiol ar grwpiau gwarchodedig, ynghyd ag ystyried y modd y gallai'r polisi neu arferiad hyrwyddo cyfle cyfartal yn well ac ystyried p'un a fyddai'r polisi'n effeithio cysylltiadau rhwng gwahanol grwpiau. Mewn achosion lle nodwyd effeithiau negyddol, darparwyd camau lliniaru neu wybodaeth esboniadol.<br><br>Yn nhermau rhoi 'sylw dyladwy', ystyriwyd yr asesiad fesul camau penodol gan Swyddogion ac Aelodau yn nhermau'r Strategaeth a Ffefrir, ymgynghori ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol wedi'i Adneuo a Newidiadau Ffocws. Cafodd y Newidiadau Materion sy'n Codi eu sgrinio am effeithiau ar gydraddoldeb. Nid ystyriwyd bod yr un o'r Newidiadau Materion sy'n Codi yn arwain at unrhyw effeithiau negyddol ar gydraddoldeb i bobl sydd â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ac nid ystyriwyd bod angen cynnal unrhyw asesiad pellach.<br><br>Cafodd yr ymgynghoriad ei hysbysebu a'i gylchredeg i randdeiliaid allweddol, cysylltiadau ar gronfa ddata'r CDLl 2, gweithredwyr meysydd gwersylla hysbys a sefydliadau eithriedig, Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned, Cynghorwyr ac Aelodau APC. Roedd yr ymgynghoriad ar gael i'w weld ar wefan Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Roedd tîm Cyfathrebu APCAP wedi cylchredeg datganiad i'r wasg ac wedi hysbysebu'r ymgynghoriad ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol. | |

[3] https://www.pembrokeshirecoast.wales/planning/planning-policy/local-development-plan-2/

| | | |
|---|---|---|
| | Derbyniwyd cyfanswm o 119 o ymatebion trwy'r holiadur ar-lein, ac roedd ymatebwyr hefyd yn gallu cyflwyno ymatebion yn ysgrifenedig drwy'r e-bost neu'r post. Roedd swyddogion wedi ymgysylltu â'r cyhoedd a phartïon a chanddynt fuddiant mewn digwyddiadau cyflwyno ac ymgysylltu ar-lein ac mewn sioeau lleol yn Sir Benfro. Mae'r ymgysylltiad hwn wedi cefnogi cyfranogiad gan ystod o unigolion a grwpiau.<br><br>Nid oedd yr ymgynghoriad wedi casglu unrhyw wybodaeth gan ymatebwyr ynghylch eu grŵp oedran. | |
| Anabledd | Gweler yr hyn a nodwyd yn flaenorol ar gyfer Oedran<br><br>Mae Amodau Trwydded Cyngor Sir Penfro ar gyfer Safle Pebyll/ safle gwyliau ar gyfer carafannau teithiol yn cynnwys y gofyniad a ganlyn:<br><br>Byddai'r gofyniad am gais cynllunio'n galluogi rhoi ystyriaeth arbennig i anghenion bobl anabl yn nhermau'r ddarpariaeth a wneir o ran pwyntiau dŵr, toiledau, mannau golchi a chawodydd. | Nodir bod potensial am effeithiau cadarnhaol o ran mynediad i'r anabl ac ystyrir y ddarpariaeth fel rhan o gais cynllunio. |
| Ailbennu Rhywedd | Gweler yr hyn a nodwyd yn flaenorol ar gyfer Oedran | Nodir bod yr effaith bosibl yn niwtral yn nhermau'r dull o gyflwyno'r cyfarwyddyd (fel y nodir o dan Oedran). |
| Beichiogrwydd a Mamolaeth | Gweler yr hyn a nodwyd yn flaenorol ar gyfer Oedran | Nodir bod yr effaith bosibl yn niwtral yn nhermau'r dull o gyflwyno'r cyfarwyddyd (fel y nodir o dan Oedran). |

<table>
<tr>
<td>Hil</td>
<td>
Gweler yr hyn a nodwyd yn flaenorol ar gyfer Oedran<br><br>
• Mae gan Sir Benfro % uwch o bobl sy’n nodi eu bod yn Wyn: Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig, sef 0.5% (560), na Chymru, sef 0.1%.
<table>
<tr><th>Grŵp ethnig (a nodir)</th><th colspan="2">lacu2021:Sir Benfro</th><th colspan="2">gwlad:Cymru</th></tr>
<tr><td></td><td>nifer</td><td>%</td><td>nifer</td><td>%</td></tr>
<tr><td>Cyfanswm: Pob preswylydd arferol</td><td>123,363</td><td>100.0</td><td>3,107,496</td><td>100.0</td></tr>
<tr><td>Gwyn: Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig</td><td>560</td><td>0.5</td><td>3,370</td><td>0.1</td></tr>
<tr><td>Gwyn: Roma</td><td>34</td><td>0.0</td><td>1,843</td><td>0.1</td></tr>
<tr><td colspan="5">TS022 – Grŵp ethnig (a nodir)<br>SYG Cedwir Hawlfraint y Goron [gan Nomis ar 9 Chwefror 2023]<br>Poblogaeth: Yr holl breswylwyr arferol<br>Unedau: Unigolion<br>Dyddiad: 2021<br>Er mwyn diogelu rhag datgelu gwybodaeth bersonol, mae’r cofnodion wedi’u cyfnewid rhwng gwahanol ardaloedd daearyddol a’r niferoedd yn destun mymryn o aflonyddiad. Bydd`` yr effaith fwyaf ar y cyfrifiadau bach yn yr ardaloedd daearyddol lleiaf.</td></tr>
</table>
• Mae gan Gynllun Datblygu Lleol 2 Bolisi 53, Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn:<br><br>
Caniateir cynigion ar gyfer safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn lle: a) Mae'r ymgeisydd wedi dangos nad oes lleiniau addas ar gael o fewn y safleoedd awdurdodedig presennol na thir ar gael o fewn terfynau’r aneddiadau presennol; a b) mae’r safle mewn lleoliad da i wasanaethu anghenion Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn, gan gynnwys yr angen am fynediad i wasanaethau lleol; a c) lle mae gan y safle fynediad da i ffordd gyhoeddus sy'n ddiogel ac yn uniongyrchol; a d) lle mae'r safle'n addas ar gyfer y datblygiad a lle gellir darparu digon o gyfleusterau a gwasanaethau ar y safle; a e) lle rhoddir sylw digonol i faterion amwynder y trigolion ar y safle a thrigolion eiddo cyfagos; a f) lle nad yw’r cynnig yn
</td>
<td>Nodir bod yr effaith bosibl yn niwtral yn nhermau’r dull o gyflwyno’r cyfarwyddyd (fel y nodir o dan Oedran).<br><br>Ni fydd y bwriad arfaethedig i gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 nad yw’n dod i rym yn uniongyrchol ar gyfer ardal gyfan Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn effeithio ar gynigion ar gyfer safleoedd i Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn o dan Bolisi 53.</td>
</tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| | achosi ymyrraeth weledol sylweddol, lle mae wedi'i leoli'n sensitif yn y dirwedd a lle darperir tirlunio boddhaol.<br><br>Mae 4.299 yn CDLl2 yn nodi “Mae Asesiad Cyngor Sir Penfro o’r Angen am Lety i Sipsiwn a Theithwyr 2015 yn nodi'r angen am safleoedd Sipsiwn a Theithwyr ac iardiau Siewmyn Teithiol yn Sir Benfro. Ni nodwyd unrhyw angen ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Cydnabyddir y gall yr angen am safle Sipsiwn a Theithwyr godi y tu allan i ganfyddiadau'r Asesiad o Anghenion Sipsiwn a Theithwyr. Lle bo hyn yn wir, bydd yr Awdurdod yn ystyried ceisiadau fesul achos yn unol â'r meini prawf a nodir uchod ac yn unol â Chylchlythyr 005/2018 'Cynllunio ar gyfer Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Phobl Sioeau Teithiol’.”<br>.<br>Effaith: Ni fyddai cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 nad yw’n dod i rym yn uniongyrchol ar gyfer ardal gyfan Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn effeithio ar gynigion ar gyfer safleoedd i Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn o dan Bolisi 53. | |
| Crefydd neu Gred | Gweler yr hyn a nodwyd yn flaenorol ar gyfer Oedran | Nodir bod yr effaith bosibl yn niwtral yn nhermau’r dull o gyflwyno’r cyfarwyddyd (fel y nodir o dan Oedran). |
| Rhyw | Gweler yr hyn a nodwyd yn flaenorol ar gyfer Oedran | Nodir bod yr effaith bosibl yn niwtral yn nhermau’r dull o gyflwyno’r cyfarwyddyd (fel y nodir o dan Oedran). |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | Gweler yr hyn a nodwyd yn flaenorol ar gyfer Oedran | Nodir bod yr effaith bosibl yn niwtral yn nhermau’r dull o gyflwyno’r cyfarwyddyd (fel y |

| | | |
|---|---|---|
| | | nodir o dan Oedran). Derbyniwyd sylwadau. |
| Priodas a Phartneriaeth Sifil | Gweler yr hyn a nodwyd yn flaenorol ar gyfer Oedran | Nodir bod yr effaith bosibl yn niwtral yn nhermau'r dull o gyflwyno'r cyfarwyddyd (fel y nodir o dan Oedran). |
| Anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau canlyniadau (yng nghyd-destun Deddf Cydraddoldeb 2010) | Byddai cyflwyno a chadarnhau'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn galluogi rheolaeth gynllunio sy'n golygu bod rhaid cymryd camau gorfodol i alluogi newid defnydd, h.y. rhaid i gynnig gael caniatâd cynllunio gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.<br><br>O ran cyflwyno'r cais cynllunio, byddai cyfnod o ymgysylltu â'r rheiny a effeithir. Mae hyn yn golygu y byddai cyfle i unrhyw un gyflwyno sylwadau ar y cynnig. Mae hyn yn golygu y byddai'r broses o gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn: -<br><br>➢ Lleihau tebygolrwydd y gwahaniaethu a achosir pan nad yw aelodau o'r cyhoedd yn derbyn gwybodaeth ynghylch newidiadau sy'n eu heffeithio neu sy'n teimlo nad oes ganddynt y gallu i ddylanwadu.<br>➢ Gofyn am geisio barn y rheiny a effeithir.<br><br>Bwriedir hefyd, os byddir yn bwrw ymlaen â gweithredu'r Cyfarwyddyd Erthygl 4, y caiff hyn ei wneud ar draws ardal yr Awdurdod Cynllunio Lleol, sy'n golygu y byddai'n cael ei weithredu yn yr un modd yn y Parc Cenedlaethol.<br><br>Fodd bynnag, nid yw'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 wedi'i roi ar waith yn awdurdodau cynllunio lleol cyfagos Cyngor Sir Penfro, Ceredigion neu Sir Gaerfyrddin, felly ceir potensial am anfantais economaidd ganfyddiadol ymhlith tirfeddianwyr a allai o bosibl weithredu safle 28 diwrnod o fewn y Parc Cenedlaethol. | Roedd yr adborth o Weithdai Archwiliol ym mis Chwefror 2024 yn darparu cyfle i ddatblygu Tabl a oedd yn nodi manteision ac anfanteision a atodwyd i'r asesiad cam 1. Darparodd gyfle hefyd i ystyried sut i ddelio ag effeithiau drwy addasu dull yr Awdurdod o fynd i'r afael â'r cynnig.<br><br>Mae hyn wedi arwain at gynnig ar gyfer cynnal cyfarfodydd chwe-misol gyda Sefydliadau Eithriedig |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae'r Awdurdod wedi paratoi Tabl Manteision ac Anfanteision o Hawliau Datblygu a Ganiateir wrth iddynt weithredu a atodir i hwn yn IIA. Darparwyd cyfle i randdeiliaid wneud sylwadau mewn dau weithdy archwiliol ym mis Chwefror 2024.<br><br>Mae'r tabl yn y rhes 'Economaidd' a'r rhes 'Ymwelwyr' yn darparu crynodeb o fanteision ac anfanteision y system Hawliau Datblygu a Ganiateir ar gyfer safleoedd 28 diwrnod ac ar gyfer Sefydliadau Eithriedig ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Nodir goblygiadau cadarnhaol a negyddol.<br><br>Byddai'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 (1) yn gofyn am gyflwyno cais cynllunio. Byddai ystyried y gofynion cynllunio yn caniatáu'r posibilrwydd o barhau â'r goblygiadau cadarnhaol, a'u gwella, ynghyd â lliniaru'r rhai negyddol.<br><br>Ni chodir ffi ar gyfer gwneud cais o ran y cynigion hynny a fyddai wedi manteisio ar y rheol 28 diwrnod ar gyfer datblygu a ganiateir. Efallai y bydd rhaid talu costau os cyflogir ymgynghorydd cynllunio.<br><br>Fodd bynnag, gallai asesu cais cynllunio ar gyfer defnyddio tir am 28 diwrnod ar gyfer gwersylla, arwain at wrthod caniatâd cynllunio os na ellid mynd i'r afael â'r anfanteision mewn modd boddhaol. Mae'r system gynllunio yng Nghymru'n chwarae rôl hanfodol o ran rheoli sut y mae tir yn cael ei ddefnyddio a'i ddatblygu. Ei ddiben yw sicrhau y caiff tir ei ddefnyddio mewn modd effeithlon a chynaliadwy wrth gydbwyso anghenion o ran datblygu a chadwraeth. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn Parc Cenedlaethol. Gall ymgeiswyr apelio yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod.<br><br>Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn codi rhywfaint o bryder ymhlith ymatebwyr bod safleoedd 20 diwrnod yn cynhyrchu incwm i ffermwyr a thyddynwyr. Roedd Cymdeithas y Tirfeddianwyr Cymru yn amlygu materion fel: | i fonitro gweithrediad safleoedd, i ddelio â materion gweithredol, i wella deialog gyda gweithredwyr, i ddatblygu Cod Ymarfer Gwirfoddol a gweithdrefn i ddatrys cwynion. Roedd hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer Sefydliadau Eithriedig yn cael eu hystyried yn wreiddiol hefyd ar gyfer Cyfarwyddyd Erthygl 4.<br><br>O ran safleoedd 28 diwrnod, byddai'r gofyniad i gyflwyno cais cynllunio ar gyfer cynigion yn cael ei gefnogi gan y canlynol:<br>- Nodyn cyfarwyddyd – Gweler Atodiad D i adroddiad eglurhaol y Pwyllgor ar 1 Mai 2024 |

| | | |
|---|---|---|
| | ➢ Beichiau ar fusnesau gwledig yng Nghymru<br>➢ Yr angen i sicrhau bod y caniatadau a roddir yn barhaol os byddir yn bwrw ymlaen â'r opsiynau hyn.<br>➢ O ran tangyllido Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, dyma'r hyn y dylid mynd i'r afael ag ef i ganiatáu i'r awdurdod cynllunio gyflawni ei swyddogaeth gynllunio yn hytrach na chyflwyno rheolaethau ychwanegol.<br>Roedd Cyfeillion y Parc Cenedlaethol yn cefnogi arfer mwy o reolaeth, ond yn rhybuddio yn erbyn rhoi baich ychwanegol ar dirfeddianwyr.<br>Awgrymwyd hefyd y dylid darparu cyfnod rhagarweiniol ar gyfer ymgeisio am ganiatâd a phrosesu ceisiadau'n gyflym.<br>Mae'r Awdurdod yn cynnig ymgymryd â'r mesurau a ganlyn i leihau ac efallai liniaru anfanteision economaidd posibl trwy:<br>➢ Ddefnyddio gweithdrefn y Cyfarwyddyd Erthygl 4(1) na fyddai'n dod i rym yn uniongyrchol, a byddai'n darparu cyfnod rhagarweiniol o 12 mis cyn ei weithredu i roi digon o amser i dirfeddianwyr a gweithredwyr safleoedd ganfod y gofynion o ran paratoi cais cynllunio a'i gyflwyno.<br>➢ Sefydlu protocol gweithio ar gyfer Swyddogion Cynllunio i fynd ati'n gyflym i brosesu ceisiadau a dderbynnir o ganlyniad i'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer safleoedd gwersylla sy'n ceisio gweithredu am hyd at 28 diwrnod.<br>➢ Bydd swyddogion yn ystyried rhoi caniatâd parhaol lle bo'n briodol. | - Dim angen talu ffi ar gyfer cynigion ar gyfer safleoedd 28 diwrnod<br>- Cyfnod rhagarweiniol ar gyfer cyflwyno'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 i ganiatáu amser i ymgeiswyr addasu er mwyn sicrhau eu caniatâd cynllunio (e.e.12 mis)<br>- O ran ceisiadau a dderbynnir o ganlyniad i'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 (gweler Atodiad E) bydd yr Awdurdod yn eu prosesu'n gyflym |

| | | |
|---|---|---|
| | | - Byddir yn ystyried rhoi caniatâd parhaol lle bo'n briodol. |
| Ystyriaethau o ran croestoriadedd | Gweler yr hyn a nodwyd yn flaenorol ar gyfer oedran ac anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau o ran canlyniadau. | Gweler yr ymateb ar gyfer oedran ac anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau o ran canlyniadau. |
| Canlyniadau ac Anghydraddoldebau Iechyd a Lles | Mae'r Awdurdod wedi paratoi Tabl Manteision ac Anfanteision o Hawliau Datblygu a Ganiateir wrth iddynt weithredu - a atodir i'r Asesiad hwn. Darparwyd cyfle i randdeiliaid wneud sylwadau mewn dau weithdy archwiliol ac yn ystod ymgynghoriad yn ystod haf 2024.<br><br>Mae'r tabl yn y rhes 'Economaidd' a'r rhes 'Ymwelwyr' yn darparu crynodeb o fanteision ac anfanteision y system Hawliau Datblygu a Ganiateir ar gyfer safleoedd 28 diwrnod ac ar gyfer Sefydliadau Eithriedig ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro.<br><br>Nodir goblygiadau cadarnhaol a negyddol. Pe bai Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn cael ei gadarnhau, yna nid yw hyn yn atal ymgeiswyr rhag cael caniatâd cynllunio ar gyfer eu cynnig. Byddai hyn efallai'n caniatáu'r posibilrwydd o fwrw ymlaen â'r goblygiadau cadarnhaol a'u gwella, a lliniaru'r anfanteision. O ran Iechyd Cyhoeddus, nodir nifer o oblygiadau cadarnhaol a negyddol yn y tabl Manteision ac Anfanteision yn nhermau safleoedd 28 diwrnod a safleoedd sydd heb eu rheoleiddio. | Er y byddai'r cynnig yn effeithio ar gyfleoedd pobl i gael mynediad i'r Parc trwy safleoedd 28 diwrnod a safleoedd sydd heb eu rheoleiddio, neu i gael mynediad i safleoedd llai/tawelach, mae ganddo botensial i helpu i wella materion ehangach o ran pryderon a godir ynghylch iechyd y cyhoedd/ amgylcheddol yn nhermau'r risg yng nghyswllt halogi dŵr |

| | | |
|---|---|---|
| | Roedd y manteision yn ymwneud â'r cynnydd o ran cyfleoedd i ymwelwyr sy'n gysylltiedig ag Iechyd a Lles a mynediad i Barc Cenedlaethol a'i gyfleoedd o ran byd natur, cyfleoedd o ran y dirwedd a chyfleoedd o ran yr amgylchedd hanesyddol. Mae'n nodi hefyd bod y safleoedd llai hyn yn dueddol o fod yn dawelach, gall hyn gael manteision cadarnhaol o ran iechyd i bobl sydd efallai'n ei chael yn anodd pan ro rhaid iddynt fynd i safleoedd mwy swnllyd. Fodd bynnag, nodir hefyd o ran yr anfanteision, bod potensial am wrthdaro ag ymwelwyr a chymunedau eraill, ynghyd â gwrthdaro ag ymwelwyr ar yr un safle, felly, mewn rhai achosion, gallai'r safleoedd hyn achosi mwy o straen i ymwelwyr a chymunedau ehangach.<br><br>Mae'r anfanteision yn amlygu'r effeithiau negyddol posibl ar gymdogion yn nhermau sŵn, golau ac oriau anghymdeithasol, ynghyd â'r potensial am wrthdaro ag ymwelwyr a chymunedau eraill, ynghyd â gwrthdaro weithiau rhwng ymwelwyr ar yr un safle. Amlygir Pryder am Ddiogelwch Ymwelwyr hefyd. Codir pryderon arwyddocaol yng nghyswllt iechyd y cyhoedd/ amgylcheddol yn nhermau halogi dŵr (gan gynnwys problemau o ran safleoedd/pibellau sydd heb eu profi), darpariaeth dŵr ar gyfer twbâu twym, ynghyd â risgiau o ran achosion o e-coli. Codir y mater o effeithiau ehangach o ran ansawdd dŵr hefyd, yng nghyswllt carthion a ffosffadau.<br><br>Mae'r cyfleusterau a'r adeileddau ar nifer o'r safleoedd wedi dod yn fwy a mwy soffistigedig hefyd, gyda llawer ohonynt yn darparu toiledau sy'n fflysio, cawodydd, twbâu twym ac ati, yn ogystal â llety sy'n aros yn ei le am y cyfnod gweithredu cyfan. Mewn rhai achosion, mae'r cyfnod hwn yn para drwy gydol y flwyddyn. O ran llawer o'r cyfleusterau ychwanegol hyn, sy'n cael effeithiau posibl yn nhermau cyflenwadau dŵr a rheoli dŵr gwastraff, ychydig iawn o reolau sydd ar waith ar eu cyfer neu ddim o gwbl.<br><br>Effaith: Er y byddai Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn effeithio ar gyfleoedd pobl i gael mynediad i'r Parc trwy safleoedd 28 diwrnod a safleoedd sydd heb eu | (gan gynnwys problemau o ran safleoedd/pibellau sydd heb eu profi), darpariaeth dŵr ar gyfer twbâu twym, ynghyd â risgiau o ran achosion o e-coli. Mae gan y cynnig hwn y potensial i helpu i liniaru risgiau posibl o ran iechyd y cyhoedd.<br><br>Gallai hefyd helpu i liniaru materion yng nghyswllt pryderon o ran diogelwch ymwelwyr, ac o ran ymwelwyr a chymunedau, a gwrthdaro weithiau rhwng ymwelwyr ar yr un safle.<br><br>Pe bai Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn cael ei gadarnhau, yna nid yw hyn yn atal ymgeiswyr rhag cael caniatâd cynllunio ar |

| | | |
|---|---|---|
| | rheoleiddio, neu i gael mynediad i safleoedd llai/tawelach, mae ganddo botensial i helpu i wella materion ehangach o ran pryderon a godir ynghylch iechyd y cyhoedd/ amgylcheddol yn nhermau'r risg yng nghyswllt halogi dŵr (gan gynnwys problemau o ran safleoedd/pibellau sydd heb eu profi), darpariaeth dŵr ar gyfer twbâu twym, ynghyd â risgiau o ran achosion o e-coli. Mae gan y cynnig hwn y potensial i helpu i liniaru risgiau posibl o ran iechyd y cyhoedd. Gallai hefyd helpu i liniaru materion yng nghyswllt pryderon o ran diogelwch ymwelwyr, ac o ran ymwelwyr a chymunedau, a gwrthdaro weithiau rhwng ymwelwyr ar yr un safle.<br><br>Pe bai Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn cael ei gadarnhau, yna nid yw hyn yn atal ymgeiswyr rhag cael caniatâd cynllunio ar gyfer eu cynnig. Byddai hyn efallai'n caniatáu'r posibilrwydd o fwrw ymlaen â'r goblygiadau cadarnhaol a'u gwella, a lliniaru'r anfanteision. | gyfer eu cynnig. Byddai hyn efallai'n caniatáu'r posibilrwydd o fwrw ymlaen â'r goblygiadau cadarnhaol a'u gwella, a lliniaru'r anfanteision. |

## Ystyriaethau o ran Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Sut mae'r Cynllun Strategol, y Polisi neu'r Penderfyniad sy'n cael ei asesu'n hyrwyddo cyfle cyfartal? | Mae'r ymgynghoriad ynghylch Datblygiadau Gwersylla a Charafanio yn y Parc Cenedlaethol wedi rhoi'r cyfle i bobl gael dylanwadu ar beth sy'n digwydd yn eu cymuned – gweler yr asesiad effaith uchod sy'n canolbwyntio ar grwpiau. Byddai'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer defnyddio tir am 28 diwrnod ar gyfer gwersylla yn golygu bod angen caniatâd cynllunio, sy'n rhoi'r cyfle i bobl wneud sylwadau ar geisiadau. Ceir y broblem hefyd o ran yr hyn y cyfeirir ato fel 'annhegwch' lle mae'r gweithredwyr safleoedd hynny sy'n gweithredu o fewn rheoliadau a rheolaeth gynllunio, lle bo'n berthnasol, yn ysgwyddo mwy o faich o ran costau a goblygiadau o ran adnoddau na'r gweithredwyr hynny sy'n gweithredu heb y rheolaethau hyn.<br><br>Byddai'r cynigion yn gam tuag at sicrhau mwy o chwarae teg. |
| Sut mae'r Cynllun Strategol, y Polisi neu'r Penderfyniad yn hyrwyddo cysylltiadau da? | Mae'r sesiynau ymgynghori ac ymgysylltu a gynhaliwyd ar y cynigion yn ystod 2024 wedi galluogi Awdurdod y Parc Cenedlaethol i fod yn dryloyw ynghylch y materion yng nghyswllt datblygiadau gwersylla a charafanio ac wedi galluogi'r awdurdod i feithrin cysylltiadau gyda rhanddeiliaid a'r cyhoedd. |

| | |
|---|---|
| | Cynhelir cyfnod ymgynghori pellach ddechrau 2025 ynghylch y Cyfarwyddyd Erthygl 4 (1) arfaethedig i ddileu hawliau datblygu a ganiateir i ddefnyddio tir am 28 diwrnod ar gyfer gwersylla. Pan ddaw'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 (1) i rym, byddai angen ceisiadau cynllunio ar gyfer safleoedd gwersylla 28 diwrnod a fyddai'n gofyn i Awdurdod y Parc Cenedlaethol ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol a hysbysebu'r cais cynllunio. Byddai'r holl sylwadau a wneir yn cael eu hystyried gan yr awdurdod, sy'n meithrin cysylltiadau da.<br>Dylai'r cais alluogi safleoedd gwersylla sydd wedi'u cynllunio'n dda, mewn lleoliadau hygyrch, gan osgoi'r rheiny sy'n achosi pryderon i gymdogion o ran amwynderau.<br>Pan fydd yr Awdurdod yn dyfeisio Cod Ymddygiad/Protocol Gweithio gyda Sefydliadau Eithriedig, byddai hyn yn galluogi'r awdurdod i fod yn rhagweithiol trwy'r cyfarfodydd chwe-misol, a thrwy roi cyngor cyn ymgeisio ac ati.<br>Gallai gwrthod rhoi caniatâd cynllunio neu gamddehongli'r cynnig gan atal y carafanio a gwersylla'n gyfan gwbl achosi drwgdeimlad. Gellir cael tensiynau hefyd gyda chymunedau lleol os rhoir caniatâd cynllunio, er bod pryderon yn cael eu codi gan breswylwyr cyfagos. |
| A oes gan y Cynllun Strategol, y Polisi neu'r Penderfyniad hwn y potensial i achosi gwahaniaethu anghyfreithlon uniongyrchol neu anuniongyrchol? | Prif nod y Cyfarwyddyd Erthygl 4 fyddai ceisio hwyluso a sicrhau cyfleoedd priodol o fewn fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol a lleol ar gyfer carafanio a gwersylla. Felly nid yw'n gweithredu ar sail unrhyw wahaniaethu, aflonyddu, neu erledigaeth anghyfreithlon. |
| A oes gan y Cynllun Strategol, y Polisi neu'r Penderfyniad y potensial i eithrio rhai grwpiau o bobl rhag cael gwasanaethau, neu gyfyngu ar eu cyfranogiad mewn unrhyw agwedd ar fywyd cyhoeddus? | Byddai ymgynghori ynghylch y cynigion ac unrhyw geisiadau cynllunio unigol yn sicrhau y caiff sylwadau eu hystyried, gan hyrwyddo cynhwysiant, ac mae'n annog cyfranogiad. Nid oes angen ymgysylltu â'r cyhoedd ynghylch cynigion ar gyfer safleoedd 28 diwrnod ar hyn o bryd. Nid bwriad Cyfarwyddyd Erthygl 4 (1) yw cyfyngu ar safleoedd 28 diwrnod ond darparu gwybodaeth ynghylch lle mae'r safleoedd yn gweithredu, a sicrhau eu bod wedi'u lleoli mewn lleoliadau priodol yn y Parc Cenedlaethol, sy'n cael effaith dderbyniol ar y dirwedd, yr amgylchedd a chymunedau. |

| | |
|---|---|
| A fydd unrhyw ran o'r hyn sy'n cael ei asesu yn cael ei wneud yn gyfan gwbl neu'n rhannol gan gontractwyr neu mewn partneriaeth â sefydliadau eraill? Os bydd, pa gamau a gymerir gennych i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol o ran caffael a/neu bartneriaethau? | Bydd. Bu M&S Planning Ltd yn gweithio gyda'r Awdurdod o ran cynnal gweithdai, paratoi'r papur tystiolaeth ac Adroddiad yr Ymgynghoriadau.<br><br>Os bydd, pa gamau a fyddwch yn eu rhoi ar waith:<br><br>- Gofyn am Weithdai Archwiliol fel rhan o'r comisiwn<br>- Gofyn am baratoi Asesiad Effaith Integredig o'r cynnig<br>- Sicrhau bod yr ymgynghoriad ffurfiol yn cydymffurfio â Chytundeb Cyflawni Cynllun Datblygu Lleol Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd.<br>- Gofyn am baratoi papurau ar gyfer gweithdai, cyfarfodydd pwyllgorau, gan gynnwys paratoi adroddiadau ar ymgynghoriadau ynghylch adborth o'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd. |

## Bylchau o ran Data/ Ymgysylltu

| | |
|---|---|
| A oes gennych unrhyw fylchau o ran data/ ymgysylltu? | Paratowyd Papur Cefndir i gyd-fynd â'r ymgynghoriad ffurfiol, ac fe'i diweddarwyd i gyd-fynd â'r ymgynghoriad ynghylch y Cyfarwyddyd Erthygl 4 (1) a gynhelir ddechrau 2025.<br><br>Mae'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd o 29 Mai i 20 Medi 2024 wedi cael eu hystyried. Derbyniwyd 120 o ymatebion i'r ymgynghoriad trwy'r holiadur ar-lein, a derbyniwyd nifer o ymatebion drwy'r e-bost a'r post gan ymgyngoreion statudol, sefydliadau eraill a'r cyhoedd. Cafodd yr ymatebion a dderbyniwyd eu hystyried gan Swyddogion, a pharatowyd Adroddiad ar yr Ymgynghoriad. Caiff Adroddiad yr Ymgynghoriad ei adrodd i Awdurdod y Parc Cenedlaethol i lywio eu penderfyniad terfynol ynghylch p'un ai i fwrw ymlaen â Chyfarwyddyd Erthygl 4 (1) i ddileu hawliau datblygu a ganiateir i ddefnyddio tir am 28 ar gyfer gwersylla a charafanau. |
| Os bydd, a ellir cael rhagor o wybodaeth neu a fyddai rhagor o ymgysylltu'n | Gweler yr ateb blaenorol. |

| | |
|---|---|
| llenwi unrhyw rai o'r bylchau hyn o ran data? | |

## Cydraddoldeb/ Anfantais Economaidd-gymdeithasol ac Anghydraddoldeb o ran Canlyniadau/ Anghydraddoldebau Iechyd a Chanlyniadau – Crynodeb/ Argymhelliad ar sail yr Asesiad i'w gynnwys yn Adroddiad y Pwyllgor/ Tîm Arweinyddiaeth

Crynodeb/ Argymhelliad ar sail yr Asesiad:

Yn gyffredinol, mae'r effaith bosibl yn gadarnhaol i aelodau o'r cyhoedd. Fodd bynnag, roedd yr ymgynghoriad wedi cynhyrchu rhai sylwadau a oedd yn nodi bod safleoedd 28 diwrnod yn cynhyrchu incwm i ffermwyr, tyddynwyr a busnesau gwledig, ac roedd pryder y byddai Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn cyfyngu ffermwyr rhag cynhyrchu incwm ychwanegol. Mae Adroddiad yr Ymgynghoriad yn ymateb i'r sylwadau a dderbyniwyd. Ni fyddai'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn codi am geisiadau cynllunio. Efallai y byddai costau ar gyfer cydymffurfio â gofynion eraill i weithredu safle gwersylla'n ddiogel, ac yn unol â rheoliadau. Cydnabyddir hefyd y byddai goblygiadau o ran costau i dirfeddianwyr os byddent yn penodi asiant cynllunio i baratoi a chyflwyno cais ar ran yr ymgeisydd.

Codwyd rhai mesurau lliniaru posibl yn ystod yr ymgynghoriad:

- Darparu cyfnod rhagarweiniol i wneud cais am ganiatâd
- Prosesu ceisiadau'n gyflym
- Sicrhau bod y caniatadau a roddir yn barhaol

O ran cyflwyno'r cais cynllunio, byddai cyfnod o ymgysylltu â'r rheiny a effeithir. Mae hyn yn golygu y byddai cyfle i unrhyw un gyflwyno sylwadau ar y cynnig.

Byddai'r broses o gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn:

- ➢ Lleihau'r tebygolrwydd o'r gwahaniaethu a achosir pan nad yw aelodau o'r cyhoedd yn derbyn gwybodaeth ynghylch newidiadau sy'n eu heffeithio, neu sy'n teimlo nad oes ganddynt y gallu i ddylanwadu arnynt.
- ➢ Cynnwys ymgynghori a cheisio barn y rheiny y gellir eu heffeithio.
- ➢ Golygu bod gwell rheolaeth ar safleoedd carafanio a gwersylla sydd heb eu rheoleiddio, a fydd felly'n sicrhau:
  - Y rhoddir ystyriaeth lawnach i amwynder eiddo cyfagos a chymunedau lleol.

- Bod lleoliadau anghysbell yn fwy tebygol o gael ei hosgoi ar gyfer lleoli safleoedd o'r fath, y gallent fod yn anoddach cael mynediad iddynt gan wasanaethau brys.[4]

**Anfantais Economaidd-gymdeithasol ac Anghydraddoldeb o ran Canlyniadau/ Argymhelliad ar sail yr Asesiad:**

Yn gyffredinol, mae'r effaith bosibl yn gadarnhaol i aelodau o'r cyhoedd. Fodd bynnag, roedd yr ymgynghoriad wedi cynhyrchu rhai sylwadau a oedd yn nodi bod safleoedd 28 diwrnod yn cynhyrchu incwm i ffermwyr, tyddynwyr a busnesau gwledig, ac roedd pryder y byddai Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn cyfyngu ffermwyr rhag cynhyrchu incwm ychwanegol. Mae Adroddiad yr Ymgynghoriad yn ymateb i'r sylwadau a dderbyniwyd. Ni fyddai'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn codi am geisiadau cynllunio. Efallai y byddai costau ar gyfer cydymffurfio â gofynion eraill i weithredu safle gwersylla'n ddiogel, ac yn unol â rheoliadau. Cydnabyddir hefyd y byddai goblygiadau o ran costau i dirfeddianwyr os byddent yn penodi asiant cynllunio i baratoi a chyflwyno cais ar ran yr ymgeisydd.

Codwyd rhai mesurau lliniaru posibl yn ystod yr ymgynghoriad:
- Darparu cyfnod rhagarweiniol i wneud cais am ganiatâd
- Prosesu ceisiadau'n gyflym
- Sicrhau bod y caniatadau a roddir yn barhaol

At ei gilydd, argymhellir y byddai'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 o fudd yn nhermau mynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldeb oherwydd y byddai cyflwyno a chadarnhau'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn:

- Darparu cyfleoedd i unrhyw un gyflwyno sylwadau ar y cynnig, ynghyd ag unrhyw gais dilynol nad yw ar gael ar hyn o bryd.
- Os caiff ei weithredu ar draws ardal yr Awdurdod Cynllunio Lleol, byddai hyn yn golygu y byddai'n cael ei weithredu yn yr un modd ym mhob ardal.
- Pe bai Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn cael ei gadarnhau, yna nid yw hyn yn atal ymgeiswyr rhag cael caniatâd cynllunio ar gyfer eu cynnig. Byddai hyn efallai'n caniatáu'r posibilrwydd o fwrw ymlaen â'r goblygiadau cadarnhaol a'u gwella, a lliniaru'r anfanteision.

---

[4] Gweithdy gyda Rhanddeiliaid 8fed Chwefror 2024 a Thabl Manteision ac Anfanteision a atodir i'r asesiad hwn.

| |
|---|
| Fodd bynnag, gallai asesiad o'r cynigion arwain at wrthod caniatâd cynllunio os na ellid mynd i'r afael â'r anfanteision mewn modd boddhaol. Mae'r system gynllunio yng Nghymru'n chwarae rôl hanfodol o ran rheoli'r modd y mae tir yn cael ei ddefnyddio a'i ddatblygu. Ei bwrpas yw sicrhau y caiff tir ei ddefnyddio mewn modd effeithlon a chynaliadwy wrth gydbwyso'r anghenion o ran datblygu a chadwraeth. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn Parc Cenedlaethol. Gall ymgeiswyr apelio yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod.<br><br>O ran safleoedd 28 diwrnod, byddai'r gofyniad i gyflwyno cais cynllunio ar gyfer cynigion yn cael ei gefnogi gan:<br>- Nodyn cyfarwyddyd – Gweler Atodiad D i adroddiad eglurhaol y Pwyllgor ar gyfer y drafft.<br>- Dim angen talu ffi ar gyfer cynigion ar gyfer safleoedd 28 diwrnod<br>- Cyfnod rhagarweiniol ar gyfer cyflwyno'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 i ganiatáu amser i ymgeiswyr addasu er mwyn sicrhau eu caniatâd cynllunio (e.e.12 mis) |
| **Crynodeb/ Argymhelliad o ran Anghydraddoldebau Iechyd a Chanlyniadau ar sail yr Asesiad:** Nodwyd goblygiadau cadarnhaol a negyddol o dan y dull hawliau datblygu a ganiateir cyfredol o fynd i'r afael â charafanio a gwersylla - gweler y Tabl Manteision ac Anfanteision ar ddiwedd yr asesiad hwn. Mae'r tabl yn y Rhes 'Economaidd', y Rhes 'Ymwelwyr' a Rhes yr 'Amgylchedd' yn darparu crynodeb o'r manteision a'r anfanteision, gydag amrywiaeth o sylwadau, o les cadarnhaol i faterion yng nghyswllt halogi dŵr.<br><br>Pe bai Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn cael ei gadarnhau, yna nid yw hyn yn atal ymgeiswyr rhag cael caniatâd cynllunio ar gyfer eu cynnig. Byddai hyn efallai'n caniatáu'r posibilrwydd o fwrw ymlaen â'r goblygiadau cadarnhaol a'u gwella, a lliniaru'r anfanteision. |

## Y Gymraeg

Os nad yw'n addas i gynnwys gwybodaeth fanwl o ran tystiolaeth, data, ac adborth o waith ymgysylltu/ ymgynghori yn y tabl ei hun, atodwch y wybodaeth hon fel Atodiad, a chyfeiriwch ati ar ffurf crynodebau yn y tabl pan fo angen.

| Maes | A oes gennych dystiolaeth neu reswm i gredu y bydd hyn, neu y gallai hyn, effeithio ar y Gymraeg o ran unrhyw un o'r meysydd a ganlyn? Ystyriwch yr effeithiau cadarnhaol a negyddol. Cyfeiriwch at dystiolaeth a gwybodaeth berthnasol o'r adborth o ganlyniad i'r ymgysylltu. | Ymateb/ Mesurau Lliniaru/ Unrhyw gamau ychwanegol a fynnir |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| Defnydd o'r Gymraeg | Cafodd y broses o baratoi ac ymgynghori ynghylch yr opsiynau i reoli Datblygiadau Gwersylla a Charafanio yn y Parc Cenedlaethol ei chynnal yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) gyda'r holl wybodaeth ar gael yn ddwyieithog. Ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion trwy gyfrwng y Gymraeg. Ni chodwyd unrhyw bryderon neu faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg gan ymatebwyr.<br><br>Byddai'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 (1) yn dod â safleoedd o fewn fframwaith y Cynllun Datblygu Lleol. Byddai ceisiadau'n cael eu hystyried yn erbyn yr holl bolisïau o fewn y CDLl, gan gynnwys ystyriaeth o dan Bolisi 13 Datblygiad Mewn Ardaloedd sy'n Sensitif i'r Gymraeg.<br><br>Ceir potensial am effeithiau cadarnhaol a negyddol o ran y defnydd o'r Gymraeg o fewn y Cyfarwyddyd Erthygl 4. Gallai'r rheolaeth ychwanegol gael effaith negyddol ar yr economi, a allai arwain at lai o swyddi yn y sector twristiaeth ac felly effaith ar nifer y swyddi sydd ar gael i bobl leol sy'n siarad Cymraeg. I'r gwrthwyneb, gallai rheolaethau ychwanegol arwain at lai o dwristiaid yn ymweld â'r ardal, a allai ddiogelu'r Gymraeg a'i diwylliant yn yr ardal. | Safonau'r Gymraeg y mae angen cydymffurfio â nhw.<br><br>Mae'n gam cadarnhaol y byddai Cyfarwyddyd Erthygl 4 (1) yn dod â safleoedd o fewn fframwaith y Cynllun Datblygu Lleol i'w hystyried o dan Bolisi 13 Datblygiad Mewn Ardaloedd sy'n Sensitif i'r Gymraeg. |
| Nifer y Siaradwyr Cymraeg | Gweler uchod. | Gweler uchod. |
| Rhuglder a Hyder siaradwyr a dysgwyr Cymraeg o ran defnyddio'r Gymraeg | Gweler uchod. | Gweler uchod. |
| Cynaliadwyedd Cymunedau Cymraeg | Gweler uchod. | Gweler uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| Safonau'r Gymraeg | Gweler uchod. | Gweler uchod. |
| Ystyriaethau eraill | Amherthnasol | |

## Bylchau o ran Data/ Ymgysylltu

| | |
|---|---|
| A oes gennych unrhyw fylchau o ran data/ ymgysylltu? | Paratowyd Papur Cefndir i gyd-fynd â'r ymgynghoriad ffurfiol – Atodiad A i Adroddiad y Pwyllgor. Mae'r ddogfen hon wedi ffurfio rhan o'r ymgynghoriad a gwahoddwyd sylwadau ar y data.<br><br>Cynhaliwyd proses ymgynghori ac ymgysylltu dros gyfnod o dros dri mis, o 29 Mai i 20 Medi. Yn nhermau ymgynghoriad cyhoeddus, anfonwyd hysbysiad trwy e-bost neu lythyr i gysylltiadau ar restr bostio'r Cynllun Datblygu Lleol, ynghyd ag asiantiaid cynllunio a'r rheiny y cysylltwyd â nhw eisoes trwy gyfarfodydd a gweithdai, ynghyd â Chynghorwyr Sir yn y Parc Cenedlaethol, rhanddeiliaid allweddol, safleoedd gwersylla hysbys sy'n gweithredu o dan sefydliadau eithriedig, safleoedd gwersylla sy'n gweithredu gyda chaniatâd cynllunio a sefydliadau eithriedig. Roedd yr ymgynghoriad ar gael i'w weld ar wefan yr Awdurdod a rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad trwy ddatganiad i'r wasg ac fe'i hyrwyddwyd ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol. Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cynhaliodd swyddogion ddigwyddiad ymgysylltu a oedd yn darparu cyflwyniad ar-lein i unrhyw aelodau o'r cyhoedd neu randdeiliaid ei fynychu, ynghyd â digwyddiad ymgysylltu ar wahân ar gyfer Cynghorau Dinas, Tref a Chynghorau Cymuned. Roedd y swyddogion wedi mynd ati hefyd i godi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu â'r cyhoedd mewn sioeau lleol yn Abergwaun, Nanhyfer, Penfro ac yn Sioe'r Sir. Roedd y swyddogion wedi codi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad hefyd yng nghyfarfod fforwm yr Asiantiaid Cynllunio. Gwahoddwyd ymatebwyr i gwblhau holiadur ar-lein neu i gyflwyno sylwadau'n ysgrifenedig trwy lythyr neu e-bost. Nid yw'r Awdurdod yn ystyried bod unrhyw fylchau o ran ymgysylltu.<br><br>Cynhelir ymgynghoriad pellach ynghylch cyflwyno'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 (1) ddechrau 2025. |
| Os oes, a ellir cael rhagor o wybodaeth neu ymgysylltiad pellach i lenwi | Gweler uchod. |

| | |
|---|---|
| unrhyw rai o'r bylchau hyn o ran data? | |

### Y Gymraeg – Crynodeb/ Argymhelliad o'r Asesiad i'w gynnwys yn Adroddiad y Pwyllgor/ y Tîm Arweinyddiaeth

| **Crynodeb/ Argymhelliad o ran y Gymraeg ar sail yr Asesiad:** |
|---|
| Byddai angen i'r broses o baratoi a chymeradwyo Cyfarwyddyd Erthygl 4 fod yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015).<br><br>Byddai'r cynnig yn dod â safleoedd o fewn fframwaith y Cynllun Datblygu Lleol i'w hystyried o dan Bolisi 13 Datblygu Mewn Ardaloedd sy'n Sensitif i'r Iaith Gymraeg. |

## Adran 6 Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Datgarboneiddio

Os nad yw'n addas i gynnwys gwybodaeth fanwl o ran tystiolaeth, data, ac adborth o waith ymgysylltu/ ymgynghori yn y tabl ei hun, atodwch y wybodaeth hon fel Atodiad, a chyfeiriwch ati ar ffurf crynodebau yn y tabl pan fo angen.

Noder os gwelwch yn dda: Mae angen Arfarniadau Cynaliadwyedd (sy'n cynnwys Asesiadau Amgylcheddol Strategol) ar wahân ar gyfer Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol a'r Cynllun Datblygu Lleol.

| Maes | A oes gennych dystiolaeth neu reswm i gredu y bydd hyn, neu y gallai hyn, effeithio ar Fioamrywiaeth neu Ddatgarboneiddio o ran unrhyw un o'r meysydd a ganlyn? Ystyriwch yr effeithiau cadarnhaol a negyddol. Cyfeiriwch at dystiolaeth a gwybodaeth berthnasol o'r adborth o ganlyniad i'r ymgysylltu. | Ymateb/ Mesurau Lliniaru/ Unrhyw gamau ychwanegol a fynnir |
|---|---|---|
| Yr Amgylchedd Naturiol – Bioamrywiaeth | Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn amlygu pryder ynghylch effeithiau ar yr amgylchedd yn nhermau llygredd ac effeithiau ar fflora, ffawna, y pridd ac ati. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn amlygu hefyd diffyg ymwybyddiaeth o ran yr effeithiau amgylcheddol y gellir eu cael yn sgil gweithredu safleoedd. | Mae hwn yn ganlyniad a allai fod yn gadarnhaol. |

| | | |
|---|---|---|
| | Byddai cyflwyno a chadarnhau'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn galluogi rheolaeth gynllunio sy'n golygu bod rhaid cymryd camau gorfodol i newid defnydd, h.y. rhaid i gynnig cael caniatâd cynllunio gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.<br><br>Byddai fframwaith Cynllun Datblygu Lleol 2 yn cael ei ddefnyddio i asesu cynigion, yn enwedig Polisi 10 Safleoedd a Rhywogaethau o Bwysigrwydd Ewropeaidd, Polisi 11 Safleoedd a Rhywogaethau a Warchodir yn Genedlaethol, a Pholisi 12 Ardaloedd Lleol o Gadwraeth Natur.<br><br>Mae'r Awdurdod hefyd wedi paratoi Tabl o Fanteision ac Anfanteision o Hawliau Datblygu a Ganiateir wrth iddynt weithredu - a atodir i'r Asesiad hwn. Darparwyd cyfle i randdeiliaid wneud sylwadau mewn dau weithdy archwiliol. Mae rhes yr 'Amgylchedd' yn y tabl yn darparu crynodeb o fanteision ac anfanteision y system Hawliau Datblygu a Ganiateir ar gyfer safleoedd 28 diwrnod ac ar gyfer Sefydliadau Eithriedig ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Nodir goblygiadau cadarnhaol a negyddol yn y tabl. Nid yw Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn atal ymgeiswyr rhag cael caniatâd cynllunio ar gyfer eu cynnig. Byddai hyn efallai'n caniatáu'r posibilrwydd o fwrw ymlaen â'r goblygiadau cadarnhaol a'u gwella, a lliniaru'r anfanteision. | |
| Yr Amgylchedd Naturiol - Ansawdd yr Aer, y Tir a Dŵr | Gweler yr ymateb uchod. Cyfeiriwch hefyd at y rhes 'Economaidd' yng nghyswllt ansawdd tir amaethyddol ynghyd â pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol. Cyfeiriwch at Bolisi 9 Llygredd Golau, Polisi 12 sy'n delio â Safleoedd o Ddiddordeb Daearegol, Polisi 29 Dylunio Cynaliadwy, Polisi 30 Amwynderau, Polisi 31 Lleihau Gwastraff, Polisi 32 Draenio Dŵr Wyneb, Polisi 34 Llifogydd a Gorlif Arfordirol. | Mae hwn yn ganlyniad cadarnhaol. |

| | | |
|---|---|---|
| | Yn gysylltiedig â chyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 fyddai cynnwys Diogelu'r Cyhoedd o ran trwyddedu, sy'n cynnwys gwiriadau ar:<br>➢ Nifer a math y cyfleusterau glanweithdra<br>➢ Cael gwared ar sbwriel<br>➢ Cyflenwadau dŵr a gwaredu dŵr gwastraff<br>➢ Lleoliadau priodol ar gyfer gwagio toiledau cemegol<br>Diogelwch priodol ar safleoedd a thrwyddedau priodol ar gyfer unrhyw gyfleusterau ar safleoedd, fel siopau, bwytai, pyllau nofio, twbâu twym ac ati. | |
| Yr Amgylchedd Naturiol – Mynediad i Fannau Agored a Gwyrdd/ Glas | Rhoddwyd cyfle i randdeiliaid wneud sylwadau mewn dau weithdy archwiliol ac yn ystod cyfnod ymgynghori.<br><br>Mae'r tabl yn rhes yr 'Amgylchedd' yn darparu crynodeb o fanteision ac anfanteision y system Hawliau Datblygu a Ganiateir ar gyfer safleoedd 28 diwrnod ac ar gyfer Sefydliadau Eithriedig ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro.<br><br>Nodir goblygiadau cadarnhaol a negyddol.<br>Nid yw Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn atal ymgeiswyr rhag cael caniatâd cynllunio ar gyfer eu cynnig. Byddai hyn efallai'n caniatáu'r posibilrwydd o fwrw ymlaen â'r goblygiadau cadarnhaol a'u gwella, a lliniaru'r anfanteision.<br><br>Fodd bynnag, efallai y bydd llai o fynediad i fannau agored yn nhermau gwersylla mewn mannau agored, gan fod lleoliadau mwy anghysbell yn fwy tebygol o fod yn annerbyniol yn nhermau effeithiau ar y dirwedd a'r defnydd o gar preifat. | Mae hwn yn ganlyniad cytbwys sy'n sicrhau bod mynediad yn cael ei reoli i atal niwed i'r Parc Cenedlaethol. |
| Yr Amgylchedd Adeiledig – Treftadaeth Adeiledig | Darparwyd cyfle i randdeiliaid wneud sylwadau mewn dau weithdy archwiliadol. | Mae hwn yn ganlyniad cytbwys sy'n sicrhau na fydd yr amgylchedd hanesyddol yn cael ei niweidio. |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae'r tabl yn rhes yr 'Amgylchedd' yn darparu crynodeb o fanteision ac anfanteision y system Hawliau Datblygu a Ganiateir ar gyfer safleoedd 28 diwrnod ac ar gyfer Sefydliadau Eithriedig ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro yng nghyswllt yr amgylchedd hanesyddol. Nodir goblygiadau cadarnhaol a negyddol.<br><br>Nid yw Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn atal ymgeiswyr rhag cael caniatâd cynllunio ar gyfer eu cynnig. Byddai hyn efallai'n caniatáu'r posibilrwydd o fwrw ymlaen â'r goblygiadau cadarnhaol a'u gwella, a lliniaru'r anfanteision. Byddai Polisi 8 d) 'bod yr amgylchedd hanesyddol yn cael ei ddiogelu a lle bo modd yn cael ei wella' yn cael ei ystyried wrth ddod i gasgliadau ynghylch ceisiadau a gyflwynir. | |
| Allyriadau neu Fesurau Lliniaru CO2e | Darparwyd cyfle i randdeiliaid wneud sylwadau mewn dau weithdy archwiliadol. Wrth drafod y tabl Manteision ac Anfanteision, golygwyd y tabl i gynnwys yr angen i leoli safleoedd mewn lleoliadau mwy hygyrch. Bydd y Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn gofyn am gyflwyno cais cynllunio. Caiff ceisiadau cynllunio eu hasesu yn erbyn cynllun mabwysiedig CDLl 2 sy'n cynnwys Polisi 58 Teithio Cynaliadwy, sy'n ceisio sicrhau bod cyfleoedd i deithio ar wahân i'r rheiny sy'n defnyddio car preifat, ynghyd â Pholisi 60 'Effeithiau Traffig'. Trwy beidio â bwrw ymlaen â Chyfarwyddyd Erthygl 4, bydd ceir preifat yn fwy tebygol o gael eu defnyddio. | Mae hwn yn ganlyniad cadarnhaol. |
| Atafaelu / Storio Co2e | Byddai polisïau Bioamrywiaeth Cynllun Datblygu Lleol 2, ochr yn ochr â'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Bioamrywiaeth yn darparu'r fframwaith ar gyfer ystyried cynigion ac atal niwed i safleoedd sensitif. | Mae hwn yn ganlyniad cadarnhaol. |
| Addasu i effeithiau'r Newid yn yr Hinsawdd | Byddai'r cynigion yn cael eu hystyried yn erbyn polisïau Cynllun Datblygu Lleol 2, yn enwedig Polisi 34 Llifogydd a Gorlif Arfordirol ynghyd â'i bolisïau ategol. | Mae hwn yn ganlyniad cadarnhaol. |
| Defnyddio Adnoddau – Effeithlonrwydd ynni a defnyddio ynni | Mae'r effeithiau o safbwynt hyn yn debygol o fod yn llai cyfyngedig. Gweler uchod o ran sylwadau yng nghyswllt Allyriadau neu Fesurau Lliniaru CO2e. | Effaith niwtral. |

| | | |
|---|---|---|
| Defnyddio Adnoddau – Atal, lleihau, ailddefnyddio, adfer neu ailgylchu gwastraff | Yn gysylltiedig â chyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 fyddai cynnwys Diogelu'r Cyhoedd o ran trwyddedu, sy'n cynnwys gwiriadau ar:<br>➢ Nifer a math y cyfleusterau glanweithdra<br>➢ Cael gwared ar sbwriel<br>➢ Cyflenwadau dŵr a gwaredu dŵr gwastraff<br>➢ Lleoliadau priodol ar gyfer gwagio toiledau cemegol<br>➢ Diogelwch priodol ar safleoedd a thrwyddedau priodol ar gyfer unrhyw gyfleusterau ar safleoedd, fel siopau, bwytai, pyllau nofio, twbâu twym ac ati. | Canlyniad cadarnhaol. |
| Defnyddio Adnoddau – Caffael Cynaliadwy | Amherthnasol | |
| Trafnidiaeth – Darpariaeth Trafnidiaeth Hygyrch | Gweler uchod ar gyfer allyriadau Co2. | Effaith gadarnhaol yn fwy tebygol. |
| Trafnidiaeth – Dulliau Teithio Cynaliadwy | Gweler uchod ar gyfer allyriadau Co2. | Effaith gadarnhaol yn fwy tebygol. |
| Unrhyw ystyriaethau eraill | Amherthnasol | |

## Bylchau o ran Data/ Ymgysylltu

| | |
|---|---|
| A oes gennych unrhyw fylchau o ran data/ ymgysylltu? | Paratowyd Papur Cefndir i gyd-fynd â'r ymgynghoriad ffurfiol a chyflwyno'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 – gweler Atodiad A i Adroddiad y Pwyllgor.<br><br>Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus o 29 Mai i 20 Medi. Ystyriwyd yr ymatebion a pharatowyd Adroddiad ar yr Ymgynghoriad, ac mae o wedi llywio'r argymhellion.<br><br>Mae angen cyfnod ymgynghori ffurfiol, ochr yn ochr â Rhybudd Datganiad o Fwriad Awdurdod y Parc Cenedlaethol i weithredu Cyfarwyddyd Erthygl 4. Caiff yr ymatebion hyn eu hystyried cyn i APC gadarnhau bod y Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn dod i rym. |

| | |
|---|---|
| Os oes, a ellir cael rhagor o wybodaeth neu ymgysylltiad pellach i lenwi unrhyw rai o'r bylchau hyn o ran data? | Gweler uchod. |

## Adran 6 Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Datgarboneiddio – Crynodeb/Argymhelliad ar sail yr Asesiad, i'w gynnwys yn Adroddiad y Pwyllgor/ y Tîm Arweinyddiaeth

| |
|---|
| Adran 6 Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Datgarboneiddio – Crynodeb/Argymhelliad ar sail yr Asesiad:<br><br>I grynhoi, mae'r cynigion yn debygol o gael effaith gadarnhaol sylweddol ar ddyletswydd bioamrywiaeth yr Awdurdod, a byddent yn cefnogi ei agenda o ran datgarboneiddio. |

## Ystyriaeth o'r 7 Nod Llesiant i Gymru a'r 5 Ffordd o Weithio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ac unrhyw dueddiadau perthnasol at y dyfodol / gwybodaeth o waith sganio'r gorwel

Os nad yw'n addas i gynnwys gwybodaeth fanwl o ran tystiolaeth, data, ac adborth o waith ymgysylltu/ ymgynghori yn y tabl ei hun, atodwch y wybodaeth hon fel Atodiad, a chyfeiriwch ati ar ffurf crynodebau yn y tabl pan fo angen.

| **Nodau Llesiant/ Ffyrdd o Weithio** | **Ym mha fodd y cafodd y canlynol eu hystyried? Cyfeiriwch at dystiolaeth berthnasol a gwybodaeth o'r adborth yn sgil ymgysylltu** | **Ymateb/ Mesurau Lliniaru/ Unrhyw gamau ychwanegol a fynnir** |
|---|---|---|
| Parc Llewyrchus[5] / Sir Benfro / Cymru | Gweler y sylwadau o dan 'Anfantais economaidd-gymdeithasol a chydraddoldeb o ran canlyniadau.' | Cynigir dull cytbwys o fynd i'r afael â chyflogaeth a chynhyrchu incwm o fewn fframwaith i ddiogelu |

[5] Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith teg.

| | | |
|---|---|---|
| | | amgylchedd y Parc Cenedlaethol. |
| Parc Cydnerth[6] / Sir Benfro / Cymru | Gweler y sylwadau o dan ‘Adran 6 Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Datgarboneiddio’ uchod, a gweler y sylwadau o dan ‘Anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau o ran canlyniadau’. | Cynigir dull cytbwys o fynd i'r afael â chyflogaeth a chynhyrchu incwm o fewn fframwaith i ddiogelu amgylchedd y Parc Cenedlaethol. |
| Parc Iachach[7]/ Sir Benfro / Cymru | Nodwyd goblygiadau cadarnhaol a negyddol o dan y dull hawliau datblygu a ganiateir cyfredol o fynd i'r afael â charafanio a gwersylla - gweler y Tabl Manteision ac Anfanteision ar ddiwedd yr asesiad hwn. Mae’r tabl yn y Rhes ‘Economaidd’, y Rhes ‘Ymwelwyr’ a Rhes yr ‘Amgylchedd’ yn darparu crynodeb o’r manteision a’r anfanteision, gydag amrywiaeth o sylwadau, o les cadarnhaol i faterion yng nghyswllt halogi dŵr.<br>Pe bai Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn cael ei gadarnhau, yna nid yw hyn yn atal ymgeiswyr rhag cael caniatâd cynllunio ar gyfer eu cynnig. Byddai hyn efallai’n caniatáu’r posibilrwydd o fwrw ymlaen â’r goblygiadau cadarnhaol a’u gwella, a lliniaru’r anfanteision. | Mae canlyniad mwy cadarnhaol na hynny sy’n cael ei brofi ar hyn o bryd yn debygol. |
| Parc sy’n Fwy Cyfartal[8]/ Sir Benfro / Cymru | Mae’r effaith bosibl yn gadarnhaol.<br><br>O ran cyflwyno’r cais cynllunio, byddai cyfnod o ymgysylltu â’r rheiny a effeithir. Mae hyn yn golygu y byddai cyfle i unrhyw un gyflwyno sylwadau ar y cynnig.<br><br>Byddai’r broses o gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn: | Effaith gadarnhaol. |

[6] Cenedl sy’n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy’n cefnogi cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â’r gallu i addasu i newid (er enghraifft, newid yn yr hinsawdd).
[7] Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle mae modd deall dewisiadau ac ymddygiad sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.
[8] Cymdeithas sy’n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a’u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol).

| | | |
|---|---|---|
| | lleihau'r tebygolrwydd o'r gwahaniaethu a achosir pan nad yw aelodau o'r cyhoedd yn derbyn gwybodaeth ynghylch newidiadau sy'n eu heffeithio, neu sy'n teimlo nad oes ganddynt y gallu i ddylanwadu arnynt.<br>golygu y byddir yn ceisio barn y rheiny y gellir eu heffeithio.<br>golygu bod gwell rheolaeth ar safleoedd carafanio a gwersylla sydd heb eu rheoleiddio, a fydd felly'n sicrhau:<br>• Y rhoddir ystyriaeth lawnach i amwynder eiddo cyfagos a chymunedau lleol.<br>• Bod lleoliadau anghysbell yn fwy tebygol o gael eu hosgoi ar gyfer lleoli safleoedd o'r fath, y gallent fod yn anoddach cael mynediad iddynt gan wasanaethau brys.<br>Gweler y sylwadau hefyd o dan 'Parc Llewyrchus' hefyd. | |
| Parc / Sir Benfro / Cymru o Gymunedau Cydlynus[9] | Byddai'r angen i wneud cais am ganiatâd cynllunio yn golygu hefyd y byddai amwynder eiddo cyfagos a chymunedau lleol yn cael eu hystyried yn llawnach. | Effaith Gadarnhaol. |
| Parc / Sir Benfro / Cymru â Diwylliant Bywiog Lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu[10] | Gweler y sylwadau o dan 'Y Gymraeg' uchod, ac o dan 'Yr Amgylchedd Adeiledig, Treftadaeth' ac o dan Adran 6 'Bioamrywiaeth a Datgarboneiddio'. | Effaith Gadarnhaol. |
| Parc / Sir Benfro / Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang[11] | Nodwyd goblygiadau cadarnhaol a negyddol o dan y dull hawliau datblygu a ganiateir cyfredol o fynd i'r afael â charafanio a gwersylla - gweler y Tabl Manteision ac Anfanteision ar ddiwedd yr asesiad hwn. Mae'r tabl yn y Rhes 'Economaidd', y Rhes 'Ymwelwyr' a Rhes yr | At ei gilydd, nodir canlyniad mwy cadarnhaol ar gyfer llesiant. |

[9] Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.
[10] Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau hamdden.
[11] Gwlad sydd, wrth wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud rhywbeth o'r fath wneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang.

| | | |
|---|---|---|
| | 'Amgylchedd' yn darparu crynodeb o'r manteision a'r anfanteision, gydag amrywiaeth o sylwadau, o les cadarnhaol i faterion yng nghyswllt halogi dŵr.<br>Pe bai Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn cael ei gadarnhau, yna nid yw hyn yn atal ymgeiswyr rhag cael caniatâd cynllunio ar gyfer eu cynnig. Byddai hyn efallai'n caniatáu'r posibilrwydd o fwrw ymlaen â'r goblygiadau cadarnhaol a'u gwella, a lliniaru'r anfanteision. | |
| Hirdymor[12] | Mae'r defnydd o Gyfarwyddyd Erthygl 4 wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â'r angen i weithredu strategaeth Cynllun Datblygu Lleol 2 y Parc Cenedlaethol, sef y ddogfen cynllunio defnydd tir hirdymor ar gyfer y Parc Cenedlaethol. | Canlyniad cadarnhaol. |
| Atal[13] | Nodir hyn yn glir trwy'r gweithdy archwiliol cyntaf a gynhaliwyd, ac fel y dangosir yn y Tabl Manteision ac Anfanteision. | Canlyniad cadarnhaol. |
| Integreiddio[14] | Byddai'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 arfaethedig yn dod o fewn Strategaeth Cynllun Datblygu Lleol yr Awdurdod ar gyfer carafanio a gwersylla.<br>Mae Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau 2023 i 2027 Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn nodi blaenoriaethau yng nghyswllt:<br>- Hybu bioamrywiaeth ac atal ei ddirywiad<br>- Cyrchfan Sero Net o ran y Parc Cenedlaethol<br>- Pobl yn iachach, yn hapusach ac wedi'u cysylltu â natur a threftadaeth<br>- Pobl yn cael cyfle i fyw, gweithio a mwynhau'r Parc Cenedlaethol | Mae'r asesiad wedi nodi effeithiau cadarnhaol sylweddol yn nhermau bioamrywiaeth a chyfraniadau tuag at leihau allyriadau carbon, gan sicrhau cynhwysiant gwell mewn penderfyniadau hefyd. Canlyniad cytbwys yn nhermau cynhyrchu incwm (efallai y caiff rhai ceisiadau cynllunio eu gwrthod), a mwynhad (efallai na fydd pob ardal yn hygyrch ond |

[12] Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.
[13] Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.
[14] Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff chyoeddus eraill.

| | | |
|---|---|---|
| | | byddai safleoedd sensitif yn cael eu diogelu). |
| Cydweithio[15] | Mae paratoi Cyfarwyddyd Erthygl 4 wedi'i drafod gyda Swyddogion perthnasol yn fewnol o fewn Awdurdod y Parc Cenedlaethol a gyda rhanddeiliaid allweddol fel Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Sir Benfro a Dŵr Cymru. Mae trafodaethau â Sefydliadau Eithriedig wedi arwain at newid ymagwedd o ran argymell y defnydd o Gyfarwyddyd Erthygl 4. Ceir cynnig yn ei le bellach ar gyfer cynnal cyfarfodydd rheolaidd i fonitro'r modd y mae safleoedd yn gweithredu. Byddai rhanddeiliaid allanol yn cael eu cynnwys yn y cyfarfodydd hyn. | Bu cydweithredu. |
| Cynnwys[16] | Cynhaliwyd gweithdai archwiliol cychwynnol. Cynhaliwyd cyfarfodydd a gweithdai gyda Swyddogion ac Aelodau o'r Awdurdod. Hefyd, cynhaliwyd cyfarfod penodol gydag adran Diogelu'r Cyhoedd yng Nghyngor Sir Penfro. Byddai ymgynghori cyhoeddus ehangach ynghylch y cynnig cyn gwneud penderfyniad terfynol ynghylch bwrw ymlaen ag ef. | Mae'r cysylltiad hwn yn parhau. |
| Gwaith Sganio'r Gorwel – Ystyriaethau o ran Tueddiadau at y Dyfodol | Bydd angen monitro cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer cofrestru a thrwyddedu llety gwyliau.<br>Bydd angen monitro canlyniadau yn sgil y cyfarfodydd chwe-misol arfaethedig a gynllunnir ar gyfer Sefydliadau Eithriedig/ Llywodraeth Cymru/ Iechyd Cyhoeddus ac ati, os byddir yn bwrw ymlaen â'r cynnig hwn. | Bydd gwaith sganio'r gorwel yn parhau. |

## Crynodeb/ argymhelliad ar sail yr Asesiad o ran Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Y 7 Nod Llesiant i Gymru / Y 5 Ffordd o Weithio a Thueddiadau at y Dyfodol/ Gwaith Sganio'r Gorwel:

| |
|---|
| Crynodeb/ argymhelliad ar sail yr Asesiad o ran Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Y 7 Nod Llesiant i Gymru / Y 5 Ffordd o Weithio a Thueddiadau at y Dyfodol/ Gwaith Sganio'r Gorwel: |

[15] Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.
[16] Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu.

| |
|---|
| Mae'r cynigion yn cyd-fynd yn dda o fewn y Nodau Llesiant a'r 5 Ffordd o Weithio. Bydd gwaith sganio'r gorwel yn parhau wrth fwrw ymlaen â'r prosiect. |

### Adran 4 – Camau Dilynol – i'w cynnwys mewn Log Asesiad Integredig at ddibenion Monitro

| Cam Gweithredu | Swyddog Cyfrifol | Amserlenni |
|---|---|---|
| Bydd angen cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn ystod y broses baratoi a chymeradwyo. | Sara Morris | |
| | | |
| | | |

Ar ôl eu cwblhau, anfonwch yr asesiadau integredig at mairt@pembrokeshirecoast.org.uk

## Atodiad B Rhan 2 Carafanio a Gwersylla yn y Parc Cenedlaethol – Datblygu a Ganiateir [17]- Manteision ac Anfanteision

Bydd safleoedd unigol yn arddangos y manteision a'r anfanteision hyn i raddau amrywiol

| Manteision [18] | A | B | C | D | E | Anfanteision [19] | A | B | C | D | E | F |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Economaidd** | | | | | | | | | | | |
| | Cynhyrchu incwm a gwariant yn yr ardal leol[20] | Creu cyflogaeth | Cymeriant tir dros dro<br><br>Tir ymylol a ddefnyddir<br><br>Mae safleoedd sydd wedi'u heithrio yn tueddu i fod ar raddfa fach[21] | Gall ffermwyr arallgyfeirio | Gallu gweithredu nawr | | 'Annhegwch' i gystadleuwyr | Gellir effeithio ar ansawdd tir amaethyddol | Tir yn cael ei dynnu'n ôl o ddefnydd amaethyddol dros dro | | | |
| | **Ymwelwyr** | | | | | | | | | | | |
| | Cynyddu cyfleoedd iechyd a llesiant | Mwy o ddewis o leoedd ar gyfer | Mwy o botensial o ran mynediad i hanes/ | Mae safleoedd llai yn tueddu i fod yn | Mae safleoedd llai yn tueddu i fod yn | | Efallai na fydd mynediad i'r Parc | Rhai mannau problemus – gormod o bobl | Amwynder cymdogion. Sŵn. Golau. Oriau | Posibilrwydd o wrthdaro gydag ymwelwyr a | Diogelwch ymwelwyr | Gwrthdaro rhwng ymwelwyr ar |

[17] Graddfa: Mae'r Safle Ardystiedig cyfartalog yn cynnwys 12 llain ar sail ffigurau PCNPA (a'r Clwb Gwersylla Gwyrddach, sef 11 llain). Tra mae gan safleoedd 28 diwrnod a safleoedd heb eu rheoleiddio niferoedd diderfyn o leiniau unigol. Mae gan hyn oblygiadau ar gyfer maint yr effeithiau posibl a ddangosir yn y tabl isod.
[18] Yn cynnwys canfyddiadau **The Outjoyment Report - The Camping and Caravanning Club**
[19] Sylwadau **cynghorol** yn unig gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar Safleoedd Eithriedig. Dim cyfle i wneud sylwadau ar safleoedd 28 diwrnod.
[20] Mae incwm a gynhyrchir gan Safleoedd Gwersylla yn pwysoli mwy i ymdrechion marchnata a gwefan y gwersyll ei hun, felly mae Asiantau Teithio Ar-lein corfforaethol mawr yn gyffredinol yn cael llai o gyfran o'i gymharu â safleoedd 28 diwrnod sy'n defnyddi'r Asiantau hyn, sy'n tynnu hyd at 20% o refeniw o'r safleoedd dros dro hyn yn y sir. Yn y bôn, mae gan safle dros dro lai o werth i'r economi leol na safle sefydledig a dibynadwy.
[21] Mae'r Safle Ardystiedig cyfartalog yn cynnwys 12 llain ar sail ffigurau PCNPA (a'r Clwb Gwersylla Gwyrddach, sef 11 llain). Tra mae gan safleoedd 28 diwrnod a safleoedd heb eu rheoleiddio niferoedd diderfyn o leiniau, ac nid ydynt yn destun asesiad o addasrwydd lleoliad.

| Manteision [18] | A | B | C | D | E | Anfanteision [19] | A | B | C | D | E | F |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | gweithgaredd au hamdden | diwylliant lleol | gyfeillgar ar raddfa fach | dawelach ac yn denu grwpiau, neu gellir rheoli pwy sy'n archebu lle yn hawdd. | | Cenedlaethol yn y 'lle iawn' | yn ymweld â nhw | anghymdeithasol | chymunedau eraill | yn bryder[22] | yr un safle weithiau |
| | **Amgylchedd** | | | | | | | | | | | |
| | Cynyddu mynediad i'r Parc Cenedlaethol | Cysylltu â chyfleoedd ym myd natur[23] | Cysylltu â chyfleoedd o ran y dirwedd | Cysylltu â chyfleoedd o ran yr amgylchedd hanesyddol | Neilltuo cyfleoedd [24] | | Cywasgu/ erydu tir yn bosibl | Efallai yr effeithir ar ansawdd dŵr - <br><br> Ffosffadau | Gellir effeithio ar Barthau Llifogydd a gwneud difrod i offer safle o ganlyniad i lifogydd | Effeithiau ar y dirwedd. Rhinweddau arbennig[25] Awyr y Nos | Gellir effeithio ar Ecoleg[26] | Gellir effeithio ar Archaeoleg |

[22] **Diogelwch ymwelwyr**: Mae Hawliau Datblygu a Ganiateir yn rhoi pobl mewn gwahanol leoliadau ar gyfer hamdden nag y byddent yn mynd yn gyffredinol. Rheolir hamdden trwy bwyntiau mynediad hysbys, e.e. meysydd parcio. Efallai na fydd ymwelwyr ag ardaloedd mwy anghysbell yn elwa o gyngor neu arwyddion ynglŷn â diogelwch traethau, er enghraifft, diogelwch ar y traeth, neu deithio ar dir anodd i gael mynediad i'r traeth.

[23] Safle gweithredu blynyddol yn creu cyfle i **gynllunio ar gyfer yr amgylchedd**. Mae safleoedd dros dro yn creu agweddau dros dro tuag at y ffactor pwysig hwn. Mae angen ystyried natur fel budd masnachol, nid colled amaethyddol yn unig.

[24] Er enghraifft, mae cynigion drafft yn disgwyl i ffermwyr blannu coed ar 10% o'u tir. Mae gwersylloedd yn yr ardaloedd hyn yn **gyfle perffaith i weithio mewn partneriaeth**.

[25] **Rhinweddau arbennig**: Ysblander yr Arfordir, Daeareg Amrywiol, Tirwedd amrywiol, cymeriad anheddiad nodedig, amgylchedd hanesyddol cyfoethog, treftadaeth ddiwylliannol, cyfoeth cynefinoedd a bioamrywiaeth, Ynysoedd, Hygyrchedd, Lle i anadlu, Anghysbell, llonyddwch ac ardal wyllt, Amrywiaeth profiadau a chyfuniad o rinweddau unigol.

[26] Agosrwydd at **gynefinoedd** a **rhywogaethau**. Os oes mwy o ardaloedd anghysbell yn cael eu cyrchu a phobl yn gwersylla dros nos ynddynt yn hytrach na phasio drwodd, yna mae mwy o botensial i aflonyddu. Er enghraifft, amharu ar y boblogaeth morloi bach.

| Manteision [18] | A | B | C | D | E | Anfanteision [19] | A | B | C | D | E | F |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | Cysylltiad dŵr[27] | | Effeithiau cronnus safleoedd gwersylla mewn un lleoliad | | |
| | | | | | | | | Capasiti carthffosiaeth<br><br>Mae gwaredu carthion yn broblem bosibl[28] | | | | |
| | | | | | | | | Cyflenwad dŵr[29] | | | | |
| | | | | | | | | Halogi dŵr[30] | | | | |
| | **Traffig** | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | Gall arwain at rwystrau | Cerbydau sy'n anaddas ar gyfer ffyrdd bach | Colli cyfleoedd i leoli mewn mannau mwy hygyrch o bosibl | Mwy tebygol o ddibynnu ar geir preifat mewn lleoliadau anghysbell | | |

[27] **Cysylltiad dŵr**, darpariaeth dŵr ar y safleoedd. Mae rhai pobl yn ystyried darparu tyllau turio. Dylai hyn gael ei ddal gan y rheoliadau cyflenwadau dŵr preifat. Mae yna hefyd reolau ar gygfer gosodiadau a ffitiadau. Efallai na fydd safleoedd / pibellau yn cael eu profi. Mae halogi dŵr yn bryder difrifol.
[28] **Carthion**: Lle mae'r carthion yn mynd? Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn nodi bod llawer o ddraenio preifat (e.e., tanciau septig a gweithfeydd trin pecynnau sydd heb eu rheoleiddio gan fod pobl ddim yn gwybod bod angen mynd at CNC am eithriad neu drwydded.
[29] **Cyflenwad dŵr**: Gyda'r cynnydd yn y boblogaeth yn ystod yr haf, sut mae'r cyflenwad dŵr yn cael ei fonitro ar gyfer safleoedd sydd heb eu rheoleiddio.
[30] **Darpariaeth dŵr** i dybiau twym hefyd yn achosi pryder. Peryglon posibl i iechyd yr amgylchedd. Achosion posibl o E-Coli.